CPS

# Adroddiad ar Drosedd Trais yn Erbyn Menywod

2007 – 2008

CANGEN GWYBODAETH REOLI

Cyhoeddwyd Rhagfyr 2008

# Contents


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb gweithredol | 2 |
| 2 | Cyflwyniad | 5 |
| 3 | Trosedd trais yn erbyn menywod: casgliadau allweddol cyffredinol | 7 |
| 4 | Trais yn y cartref | 17 |
| 5 | Casgliadau allweddol am drosedd trais yn y cartref | 19 |
| 6 | Treisio | 28 |
| 7 | Casgliadau allweddol trosedd treisio | 30 |
| 8 | Casgliadau allweddol troseddau rhywiol ac eithrio treisio | 37 |
| 9 | Priodas dan orfod, yr hyn a elwir yn droseddau ‘anrhydedd’ a llungunio organau rhywiol merched | 43 |
| 10 | Casgliadau allweddol y cynllun peilot priodas dan orfod/yr hyn a elwir yn droseddau ‘anrhydedd’ | 44 |
| 11 | Plant a cham-drin plant | 45 |
| 12 | Y Fasnach mewn pobl | 47 |
| 13 | Puteindra | 49 |
| 14 | Pornograffi | 51 |
| 15 | Troseddau yn erbyn pobl hŷn | 53 |
| | Atodiad 1: Erlyniadau fesul rhanbarth | 54 |
| | Geirfa | 58 |

# 1 Crynodeb gweithredol

Dyma adroddiad blynyddol cyntaf Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) ar berfformiad ym maes Trais yn erbyn Menywod. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu ystod o linynnau Trais yn erbyn Menywod (VAW) ar gyfer 2007-08: trais yn y cartref; priodas dan orfod; yr hyn a elwir yn droseddau 'anrhydedd'; llurgunio organau rhywiol menywod; treisio a throseddau rhywiol; y fasnach mewn pobl; puteindra; cam-drin plant; a phornograffi[1].

Cafodd y troseddau hyn eu grwpio dan ymbarél 'Trais yn erbyn Menywod' oherwydd eu proffil – mae'r mwyafrif yn cael eu cyflawni gan ddynion yn erbyn menywod, mewn cyd-destun sy'n cynnwys pŵer a rheolaeth.

Yn bennaf, mae'r adroddiad hwn yn darparu data wedi'i gydgasglu ar drais yn y cartref, treisio a throseddau rhywiol mewn adran o'r enw "Trais yn erbyn Menywod"; yn dilyn hynny mae adrannau ar wahân ar gyfer pob un o'r tri maes ar wahân.

Hefyd, darperir data pellach ar briodas dan orfod a'r hyn a elwir yn droseddau 'anrhydedd', cam-drin plant a phornograffi. Ar gyfer pob un o naw llinyn VAW, rhoddir gwybodaeth fanwl am waith presennol ac arfaethedig a rhoddir nifer o astudiaethau achos yn enghreifftiau o waith y CPS.

## VAW – casgliadau allweddol cyffredinol

Yn adran VAW yr adroddiad, mae troseddau VAW yn cyfeirio at ddata a gydgasglwyd am drais yn y cartref, treisio a throseddau rhywiol. Mae'r prif ffigurau yn dangos:

- Yn y ddwy flynedd yn diweddu Mawrth 2008, erlynwyd dros 144,000 diffynnydd am droseddau trais yn erbyn menywod;
- Dynion oedd 94% o'r diffynyddion yn 2007-08 (1% yn llai nag yn 2006-07);
- Menywod oedd 86% o ddioddefwyr yn 2007-08 (1% yn fwy nag yn 2006-07);
- Trais yn y cartref yw bron i 85% o droseddau VAW; 5% yn dreisio ac 11% yn droseddau rhywiol;
- Bu cynnydd yn nifer yr achosion VAW a gyhuddwyd o 59% yn 2006-07 i 64% yn 2007-08;
- Cwympodd erlyniadau aflwyddiannus o 35% yn 2006-07 i 31% yn 2007-08;
- Bu cynnydd mewn pledion euog o 56% yn 2006-07 i 60% yn 2007-08;
- Roedd canlyniadau aflwyddiannus oherwydd materion gyda dioddefwyr yn gyfrifol am 15% o bob canlyniad VAW yn 2006-07 gan ostwng i 14% yn 2007-08.

## Trais yn y cartref – casgliadau allweddol

Y mae data am drais yn y cartref ar gael o 2005-06 ac felly mae'n bosib gwneud rhywfaint o ddadansoddi ar gyfer cyfnod o dair blynedd.

[1] Cynhwysir adran fer ar waith mewn perthynas â throseddau yn erbyn pobl hŷn.

- Yn y tair blynedd yn diweddu ym Mawrth 2008, erlynwyd dros 170,000 diffynnydd am drais yn y cartref;
- Dynion oedd 94% o'r diffynyddion yn 2007-08 (1% yn llai nag yn 2006-07);
- Menywod oedd 86% o ddioddefwyr yn 2007-08 (1% yn fwy nag yn 2006-07);
- Bu cynnydd yn nifer yr achosion trais yn y cartref a gyhuddwyd[2] o 62% yn 2006-07 i 65% yn 2007-08;
- Cwympodd erlyniadau aflwyddiannus o 40% yn 2005-06 i 31% yn 2007-08;
- Bu cynnydd mewn pledion euog o 58% yn 2006-07 i 62% yn 2007-08;
- Roedd canlyniadau aflwyddiannus oherwydd materion gyda dioddefwyr yn gyfrifol am 17% o bob canlyniad trais yn y cartref yn 2006-07 gan ostwng i lai nag 16% yn 2007-08.

## Treisio – casgliadau allweddol

- Yn y ddwy flynedd yn diweddu Mawrth 2008, erlynwyd dros 6,700 diffynnydd am dreisio;
- Dynion oedd 99% o'r diffynyddion yn 2006-07 ac yn 2007-08;
- Menywod oedd 87% o ddioddefwyr yn 2006-07 ac yn 2007-08;
- Bu cynnydd yn nifer yr achosion treisio a gyhuddwyd, o 33% yn 2006-07 i 40% yn 2007-08;
- Cwympodd erlyniadau aflwyddiannus o 46% yn 2005-06 i 42% yn 2007-08;
- Bu cynnydd mewn pledion euog, o 33% yn 2006-07 i 35% yn 2007-08;
- Roedd canlyniadau aflwyddiannus oherwydd materion gyda dioddefwyr yn gyfrifol am 9% o bob canlyniad treisio yn 2006-07 gan ostwng i lai nag 8% yn 2007-08.

## Trosedd rhywiol – casgliadau allweddol[3]

- Yn y ddwy flynedd yn diweddu Mawrth 2008, erlynwyd dros 16,400 diffynnydd am droseddau rhywiol (ac eithrio treisio);
- Dynion oedd bron i 96% o'r diffynyddion yn 2007-08 (prin y bu newid o gymharu â 2006-07);
- Cwympodd erlyniadau aflwyddiannus o 32% yn 2005-06 i 27% yn 2007-08;
- Bu cynnydd mewn pledion euog o 53% yn 2006-07 i 58% yn 2007-08;
- Roedd canlyniadau aflwyddiannus oherwydd materion gyda dioddefwyr yn gyfrifol am 4% o bob canlyniad trosedd rhywiol yn 2006-07 gan ostwng i lai na 3% yn 2007-08.

## Priodas dan orfod a'r hyn a elwir yn droseddau 'anrhydedd'

Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi data am briodas dan orfod a'r hyn a elwir yn droseddau 'anrhydedd' yn dilyn cynllun peilot a gynhaliwyd am naw mis yn 2007-08 mewn pedwar o Ranbarthau'r CPS. Nodwyd 35 achos ac o'u plith roedd 21 wedi'u cwblhau adeg casglu'r data. Dynion oedd yr holl ddiffynyddion; roeddynt yn 29 mlwydd oed ar gyfartaledd, a'r rhan fwyaf yn Asiaid, gyda'r achosion yn fwy tebygol o gael eu cwblhau yn Llys y Goron nag yn y llys ynadon. Roedd nifer yn ymwneud â mwy nag un diffynnydd a dioddefwr. Roedd rhai, ond nid y cyfan, o fewn cyd-destun trais yn y cartref. Mewn achosion ble gwelwyd mai dynion oedd y dioddefwyr, yr oedd yn gysylltiedig â pherthynas gyda menyw a gafodd ei niweidio hefyd.

---

[2] Y mae data ar gyhuddo ar gael o 2006-07 yn unig.

[3] Mae data'r CPS ar droseddau rhywiol yn fwy cyfyngedig nag ar gyfer trais yn y cartref a threisio. Nodir troseddau rhywiol ar ddiwedd erlyniad yn unig, tra bo data ar drais yn y cartref a threisio yn cael ei ddal yn ychwanegol ar gyfer achosion cyn cyhuddo.

## Cam-drin plant

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn rhoi data ar erlyn lladdiadau plant; troseddau corfforol a throseddau rhywiol.

- Yn y ddwy flynedd yn diweddu Mawrth 2008, erlynwyd 59 diffynnydd am laddiad[4]; erlynwyd 4,654 diffynnydd am droseddau corfforol ac erlynwyd 7,783 diffynnydd am droseddau rhywiol yn erbyn plant.
- Yn 2007-08, dynion oedd 69% o ddiffynyddion lladdiad; 75% o ddiffynyddion troseddau corfforol a 98% o ddiffynyddion troseddau rhywiol;
- Yn 2007-08 cafwyd cyfraddau euogfarnu o 69% ar gyfer lladdiadau[5]; 72% ar gyfer troseddau corfforol a 72% ar gyfer troseddau rhywiol.

## Pornograffi

Rhoddir peth data am nifer y troseddau a erlynir mewn perthynas â deunyddiau anweddus neu sy'n peri tramgwydd dybryd, cyhoeddiadau anllad a chamfanteisio'n rhywiol ar blant trwy wneud, dosbarthu, dangos a hysbysebu ffotograffau anweddus ohonynt. Yn 2007-08, bu 3,079 trosedd o fod â meddiant ffotograff anweddus o blentyn ac 11,873 o gamfanteisio'n rhywiol ar blant trwy ffotograffau.

---

[4] Mae lladdiadau yn cynnwys troseddau llofruddiaeth neu ddynladdiad, cynllwynio neu ymgais i achosi llofruddiaeth neu ddynladdiad a bygwth lladd.
[5] Dylid nodi niferoedd bychan yr achosion.

# 2 Cyflwyniad

Dyma adroddiad blynyddol cyntaf Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) ar berfformiad ym maes Trais yn erbyn Menywod. Mae'r adroddiad yn cwmpasu ystod o linynnau Trais yn erbyn Menywod (VAW) ar gyfer 2007-08:

- trais yn y cartref;
- priodas dan orfod;
- yr hyn a elwir yn droseddau 'anrhydedd';
- llungunio organau rhywiol merched;
- treisio a throseddau rhywiol;
- y fasnach mewn pobl, gan ganolbwyntio ar y fasnach mewn pobl ar gyfer camfanteisio'n rhywiol;
- puteindra, gan gynnwys puteindra plant;
- cam-drin plant;
- pornograffi.[6]

Cafodd y troseddau hyn eu grwpio dan ymbarél 'Trais yn erbyn Menywod' oherwydd eu proffil – y mwyafrif wedi'u cyflawni gan ddynion yn erbyn menywod, gyda chyd-destun pŵer a rheolaeth. Ar gyfer trais yn y cartref, treisio, troseddau rhywiol a ble bo modd, ar gyfer cam-drin plant, mae perfformiad erlyn 2007-08 yn cael ei gymharu â 2006-07. Ar gyfer priodas dan orfod a'r hyn a elwir yn droseddau 'anrhydedd', darperir data o gynlluniau peilot 2007-08 mewn pedwar Rhanbarth. Ar hyn o bryd, nid oes systemau ar gael i archwilio canlyniadau erlyn ar gyfer y fasnach mewn pobl a phuteindra, ond mae gwaith ar y gweill gyda Chanolfan Masnach mewn Pobl y Deyrnas Unedig yn ystod 2008-09. Nid oes data dibynadwy ar buteindra, y fasnach mewn pobl a phornograffi ar gael cyn 2008. Lansiwyd polisi ar droseddau yn erbyn pobl hŷn yng Ngorffennaf 2008, ynghyd â systemau i fonitro perfformiad, ond nid oes data ar gael cyn Ebrill 2008.

Mae'r adroddiad yn rhoi data mewn gwahanol adrannau ar bob un o linynnau VAW, gan gynnwys gwaith presennol ac arfaethedig dan bob testun a nifer o astudiaethau achos. Defnyddir y data gorau sydd ar gael, gan gydnabod rhai gwendidau o ran yr hyn sydd ar gael. Rhoddir ymrwymiad i wella ansawdd y data yn barhaus.

## Strategaeth a chynlluniau gweithredu Trais yn erbyn Menywod y CPS

Yn 2007, am yr ail flwyddyn yn olynol, fe sgoriodd y CPS y marc uchaf ar draws holl Adrannau'r Llywodraeth yn y dadansoddiad annibynnol blynyddol o fentrau adrannau'r Llywodraeth sef Dileu Trais yn erbyn Menywod – "*Making the Grade*".

Yn ystod 2007-08 fe ddatblygodd y CPS Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, sef y cyntaf gan adran o'r llywodraeth, gyda chynlluniau gweithredu cenedlaethol ar gyfer 2008-2011.

Sefydlwyd grŵp ymgynghorol allanol parhaol i gynghori'r CPS ar faterion VAW.

[6] Ceir adran fer ar waith mewn perthynas â throseddau yn erbyn pobl hŷn hefyd.

Mae'r strategaeth VAW yn gysylltiedig â dangosyddion Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus (PSA) y CPS sef:

- Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y CPS o ran dod â mwy o droseddwyr troseddau VAW gerbron llys:
  - gostwng canlyniadau erlyn aflwyddiannus;
  - datblygu Canllaw VAW ar gyfer erlynwyr;
  - cydgysylltu ac ad-drefnu cydgysylltwyr VAW ac ystyried ad-drefnu erlynwyr arbenigol;
  - datblygu achosion ar gyfer hyfforddiant VAW.

- Gwella hyder y cyhoedd a rhanddeiliaid yn y CPS:
  - cynnwys rhanddeiliaid cymunedol yn lleol a chenedlaethol;
  - datblygu system i fesur bodlonrwydd rhanddeiliaid;

- Gwella cefnogaeth, diogelwch a bodlonrwydd dioddefwyr a thystion:
  - gweithio gyda'r Uned Rhoi Gofal i Ddioddefwyr a Thystion i ystyried systemau cefnogi ar gyfer dioddefwyr VAW a sicrhau bod canlyniadau yn cael eu monitro;
  - datblygu system i fesur cefnogaeth, diogelwch a bodlonrwydd dioddefwyr.

- Rhoi sylw i unrhyw anghyfartaledd ar draws yr holl linynnau cydraddoldeb:
  - dadansoddi proffiliau cydraddoldeb diffynyddion a dioddefwyr VAW;
  - sicrhau bod gan Unedau Gofal Tystion systemau cefnogaeth, a gwybodaeth am gefnogaeth i ddioddefwyr a thystion o bob cymuned.

O fis Ebrill 2008, mae'r CPS wedi monitro perfformiad o ran "Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y CPS o ran dod â mwy o droseddwyr troseddau VAW gerbron llys". Sefydlwyd Dangosydd Trais yn erbyn Menywod a bydd Rhanbarthau yn cael eu hasesu yn erbyn y Dangosydd bob chwarter. Yn 2008-09 bydd y CPS yn mynd i'r afael â pherfformiad o ran trais yn y cartref, treisio a throseddau rhywiol, ac o 2009 bydd yn ystyried cofnodi a monitro rhagor o linynnau VAW. Y nod yn 2008-09 yw i ganlyniadau aflwyddiannus gael eu gostwng i'r targedau canlynol erbyn Ebrill 2009: trais yn y cartref i 28%; treisio i 41% a throseddau rhywiol i 28%.

Yn 2009-10, bydd y Dangosydd yn cynnwys trais yn y cartref, treisio, troseddau rhywiol, a rhoddir ystyriaeth i gynnwys priodas dan orfod, yr hyn a elwir yn droseddau 'anrhydedd', cam-drin plant a throseddau yn erbyn pobl hŷn.

Yn 2010-11, eir i'r afael â'r uchod i gyd a rhoddir ystyriaeth i gynnwys puteindra a'r fasnach mewn pobl.

Mae data am erlyniadau ar gyfer pob un o 42 Rhanbarth y gwasanaeth i'w gael yn Atodiad 1, ar dudalen 54 yr adroddiad hwn.

Mae rhestr o'r termau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn i'w chael ar dudalen 58.

# 3 Trosedd trais yn erbyn menywod: casgliadau allweddol cyffredinol

Ers Ebrill 2008 mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi adrodd am erlyn troseddau trais yn erbyn menywod (VAW) fel rhan o'r broses adolygu perfformiad, gan fesur canlyniadau yn erbyn dangosydd perfformiad newydd. Mae troseddau VAW a gynhwysir yn y dangosydd hwn yn 2008-09 yn cynnwys trais yn y cartref, treisio, a throseddau rhywiol ac eithrio treisio.

Ar gyfer cyfnodau cyn Ebrill 2008, roedd trais yn y cartref yn cael ei gofnodi fel trosedd casineb, felly fe gyfeirir at drais yn y cartref yn yr Adroddiad Blynyddol ar Drosedd Casineb 2007-08 hefyd. Mae data am droseddau VAW yn cael ei gofnodi o fewn System Reoli Achosion Compass (CMS), a'i dynnu o'r system berthynol sef System Gwybodaeth Reoli Compass (MIS).

Y mae gwahaniaethau trefniadol bach yn y ffordd y caiff data ei gasglu. Nodir achosion trais yn y cartref a threisio wrth i ddefnyddiwr y CMS osod baneri monitro ar yr achos ar y cam cyn cyhuddo, neu ar unrhyw gam dilynol yn yr achos. Mewn cyferbyniad, nodir troseddau rhywiol gan ddefnyddwyr CMS fel categori'r prif drosedd ar ddiwedd yr achos. Felly, er ei bod hi'n bosib nodi penderfyniadau cyn cyhuddo o ran achosion trais yn y cartref a threisio, nid oes cofnod cyfatebol o benderfyniadau cyn cyhuddo ar gyfer troseddau rhywiol; dim ond cofnod o ganlyniad yr achos yn y pen draw.

Mae erlyniadau a gwblheir yn disgyn i ddau gategori: euogfarnu, sy'n cynnwys pledion euog, euogfarnu ar ôl treial ac achosion a brofir yn absenoldeb y diffynnydd; a chanlyniadau aflwyddiannus, sy'n cynnwys pob canlyniad arall gan gynnwys terfynu achosion, cwblhau gwaith gweinyddol, achosion traddodi a ryddhawyd, gwrthod achosion ar ôl treial a gwrthod achosion oherwydd nad oes achos i'w ateb, barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu a rhyddfarnu gan reithgor.


**Mae'r holl ddata am VAW isod yn cwmpasu cyfanswm y data am drais yn y cartref, treisio a throseddau rhywiol.**

## Cyhuddo

Cyflwynwyd cyhuddo diffynyddion yn statudol gan y CPS yn llawn yn Ebrill 2006. Yn y ddwy flynedd yn dilyn y dyddiad hwnnw cafodd 143,500 o achosion y nodwyd eu bod yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod eu cyfeirio at y CPS am benderfyniad cyhuddo. Mae'r tabl a'r siart isod (1) yn dangos bod dros 88,000 o'r rhain, neu 61%, wedi'u cyhuddo yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd. Nid yw'r ffigurau cyhuddo yn cynnwys troseddau rhywiol ac eithrio treisio, gan y bydd y troseddau hyn yn cael eu nodi pan fydd diffynnydd yn cael ei gyhuddo'n ffurfiol yn unig.

Cododd cyfran yr achosion a gyhuddwyd o 59% o achosion VAW a gyfeiriwyd at y CPS yn 2006-07 i 64% yn 2007-08. Adroddir am gyfran yr achosion a gyhuddwyd o fewn pob math o drosedd yn yr adrannau perthnasol yn yr adroddiad hwn. Roedd cyfraddau cyhuddo yn amrywio ar draws y llinynnau. Yn 2007-08, cyhuddwyd 65.4% o achosion trais yn y cartref o gymharu â 40% o dreisio. Efallai fod hyn yn adlewyrchu'r gwaith hanesyddol a wnaed i wella erlyniadau trais yn y cartref. Efallai hefyd ei fod yn arwydd o'r anawsterau sy'n gysylltiedig ag erlyn treisio, yn enwedig pan fydd dadl ynghylch a roddodd y ddioddefwraig ei chaniatâd ai peidio.

**Tabl 1:** **Penderfyniadau Cyn Cyhuddo***





| Pob Diffynnydd | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Cyhuddwyd | 38,920 | 59.0% | 49,335 | 63.6% |
| Cais am ragor o dystiolaeth | 897 | 1.4% | 565 | 0.7% |
| Dim erlyniad | 21,699 | 32.9% | 23,113 | 29.8% |
| Pob penderfyniad arall | 4,406 | 6.7% | 4,601 | 5.9% |
| Cyfanswm | 65,922 | | 77,614 | |

Rhoddwyd Cyhuddo Statudol ar waith yn llawn ar 3 Ebrill 2006
*Nid yw Troseddau Rhywiol ac eithrio treisio yn cael eu cynnwys yn y data am benderfyniadau cyn cyhuddo. Nid oes cofnod o benderfyniadau cyn cyhuddo ar gael o ran troseddau rhywiol.

## Euogfarnau

Yn y ddwy flynedd yn diweddu Mawrth 2008, erlynwyd dros 144,000 diffynnydd am drais yn erbyn menywod. Mae tabl a siart 2 isod yn dadansoddi erlyniadau dros y cyfnod o ddwy flynedd, ac yn dangos i euogfarnau godi o 65% yn 2006-07 i 69% yn 2007-08.

**Tabl 2:** **Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Canlyniad**





| | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 44,836 | 65.0% | 51,974 | 68.9% |
| Aflwyddiannus | 24,094 | 35.0% | 23,478 | 31.1% |
| Cyfanswm | 68,930 | | 75,452 | |

Mae'r tabl a'r siartiau isod yn rhoi dadansoddiad manwl o ganlyniadau erlyniadau ar gyfer VAW yn 2006-07 a 2007-08. Cododd pledion euog o 56% i 60%, gan gyfrannu at well cyfradd euogfarnu o 69% yn ei chyfanrwydd yn 2007-08. Bu gostyngiad yn yr erlyniadau a ollyngwyd gan y CPS, gan gynnwys terfynu achosion ac achosion ble na chynigiwyd tystiolaeth, o 26% i lai na 24%.


Gosodwyd targed ar gyfer trais yn y cartref, sef 30% ar gyfer 2007-08 ac aethpwyd y tu hwnt i hyn yn ystod chwarter olaf y flwyddyn. Ni osodwyd targedau ar gyfer treisio na throseddau rhywiol yn 2007-08. Gosodwyd targed ar gyfer gostyngiadau mewn canlyniadau aflwyddiannus mewn troseddau VAW at ei gilydd ar 29% ar gyfer 2008-09. Cyrhaeddwyd y targed hwn yn chwarter cyntaf y flwyddyn gyda chanlyniad o 28%. Gosodwyd is-dargedau unigol ar gyfer trais yn y cartref, treisio a throseddau rhywiol. Ar gyfer trais yn y cartref, gosodwyd targed 2008-09 ar 28% a chyrhaeddwyd hwn yn y chwarter cyntaf. Gosodwyd targedau ar gyfer treisio a throseddau rhywiol eraill ar 41% a 28% yn y drefn honno ar gyfer 2008-9; er ymylu ar gyflawni'r targed ar gyfer treisio yn y chwarter cyntaf, aethpwyd y tu hwnt i'r targed ar gyfer troseddau rhywiol.

**Tabl 3: Canlyniadau Erlyn**

**Euogfarnau**




**Canlyniadau Aflwyddiannus**





| | | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 774 | 1.1% | 858 | 1.1% |
| Achosion Traddodi a Ryddhawyd | 199 | 0.3% | 209 | 0.3% |
| Erlyniadau a Ollyngwyd gan gynnwys dirwyn achosion i ben, ni chynigiwyd tystiolaeth a thynnu'n ôl | 18,142 | 26.3% | 17,723 | 23.5% |
| *o'u plith – ni chynigiwyd tystiolaeth* | *8,890* | *12.9%* | *9,635* | *12.8%* |
| Gwrthodwyd ar ôl treial llawn | 2,532 | 3.7% | 2,559 | 3.4% |
| Dim achos i'w ateb | 313 | 0.5% | 266 | 0.4% |
| Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu | 275 | 0.4% | 252 | 0.3% |
| Rhyddfarnu gan reithgor | 1,859 | 2.7% | 1,611 | 2.1% |
| **Canlyniadau Aflwyddiannus** | **24,094** | **35.0%** | **23,478** | **31.1%** |
| Ple euog | 38,495 | 55.8% | 45,307 | 60.0% |
| Euogfarnu ar ôl treial | 6,209 | 9.0% | 6,548 | 8.7% |
| Profwyd yn absenoldeb | 132 | 0.2% | 119 | 0.2% |
| **Euogfarnau** | **44,836** | **65.0%** | **51,974** | **68.9%** |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **68,930** | | **75,452** | |

## Erlyniadau yn ôl math o drosedd VAW

Mae'r tablau a'r siartiau isod (4) yn dangos erlyniadau yn ôl math o drosedd VAW ar gyfer 2006-07 i 2007-08. Trais yn y cartref oedd cyfran fwyaf y cyfanswm ar 83% yn 2006-07 ac 85% yn 2007-08.

**Tabl 4:** **Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Math o Drosedd VAW**




| | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Trais yn y Cartref | 57,361 | 83.2% | 63,819 | 84.6% |
| Treisio | 3,264 | 4.7% | 3,503 | 4.6% |
| Troseddau Rhywiol ac eithrio treisio | 8,305 | 12.0% | 8,130 | 10.8% |
| Cyfanswm | 68,930 | | 75,452 | |

## Erlyniadau aflwyddiannus

Y prif resymau y mae achosion yn methu yw oherwydd tystiolaeth annigonol, oherwydd na fyddai erlyn er budd y cyhoedd neu oherwydd bod y diffynnydd yn cael ei ryddfarnu yn y treial. Hefyd, fe geir achosion sy'n methu parhau oherwydd bod dioddefwr neu dyst yn methu mynychu neu'n tynnu cyhuddiadau yn ôl, a'r achosion hynny sy'n ddarostyngedig i gwblhau gwaith gweinyddol. Parhaodd y cyfrannau yn debyg o fewn pob categori o 2006-07 i 2007-08. Yn 2007-08, roedd 3.7% yn aflwyddiannus am resymau gweinyddol; 36.2% am resymau tystiolaethol; 7.4% oherwydd budd y cyhoedd; roedd 30.8% yn methu parhau, ac 21.9% am resymau eraill gan gynnwys rhyddfarnu ar ôl treial.

Mae tabl 5 yn rhoi dadansoddiad manylach, gan ddangos y gyfran sy'n methu oherwydd materion gyda dioddefwyr (gan gynnwys dioddefwyr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl ac achosion ble bydd dioddefwr yn methu mynychu gwrandawiad llys), y rhai sy'n arwain at rwymo, a'r rhai ble cafodd y diffynnydd rybuddiad. O fewn y rhesymau allweddol hyn, dioddefwyr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl oedd yn parhau i fod y categori unigol mwyaf, a phrin fu'r newid dros gyfnod yr adolygiad ar tuag 20% i 19%, tra bu cynnydd graddol yn y gyfran a fethodd oherwydd i ddioddefwr fethu mynychu ac yn y gyfran ble nad oedd tystiolaeth y dioddefwyr yn cefnogi achos yr erlyniad. Parhaodd y gyfran a fethodd oherwydd rhesymau allweddol yn sefydlog, ar 52% o'r holl ganlyniadau aflwyddiannus.

**Tabl 5: Rhesymau Allweddol dros Erlyniadau Aflwyddiannus**




| | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Dioddefwr yn Tynnu Cyhuddiad yn ôl | 4,747 | 19.7% | 4,440 | 18.9% |
| Dioddefwr Ddim yn Mynychu | 1,976 | 8.2% | 2,465 | 10.5% |
| Tystiolaeth Dioddefwr ddim yn cefnogi achos | 3,370 | 14.0% | 3,654 | 15.6% |
| Rhybuddiad | 332 | 1.4% | 282 | 1.2% |
| Rhwymo | 1,942 | 8.1% | 1,343 | 5.7% |
| *Cyfanswm Prif Resymau* | *12,367* | *51.3%* | *12,184* | *51.9%* |
| Pob Rheswm Arall | 10,953 | 45.5% | 10,436 | 44.5% |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 774 | 3.2% | 858 | 3.7% |
| Cyfanswm | 24,094 | | 23,478 | |

Rhoddir dadansoddiad o'r rhesymau dros ganlyniadau aflwyddiannus ar gyfer yr holl linynnau unigol o fewn trosedd VAW yn yr adran berthnasol yn yr adroddiad hwn. Cafwyd gwahaniaethau clir yn y materion allweddol i ddioddefwyr ar draws y llinynnau: mae materion yn ymwneud â dioddefwyr yn arbennig o gyffredin fel ffactor yn yr achosion trais yn y cartref sy'n methu, ond roeddynt yn llai cyffredin ar gyfer llinynnau troseddu eraill. Ymhlith y rhesymau allweddol dros erlyniadau aflwyddiannus mewn achosion treisio neu droseddau y mae rhyddfarnu, elfennau cyfreithiol hanfodol ar goll, tyst neu dystion annibynadwy, a thystiolaeth anghyson.


Mae tabl a siart 6 yn dangos niferoedd a chyfran y materion sy'n ymwneud â dioddefwyr mewn perthynas â phob canlyniad. Er bod niferoedd y rhai aflwyddiannus oherwydd anawsterau dioddefwyr wedi cynyddu ychydig, o 10,093 yn 2006-07 i 10,559 yn 2007-08, bu ychydig bach o ostyngiad mewn cyfrannedd â chyfanswm y canlyniadau trosedd VAW, o bron i 15% i 14%. Cwympodd y canlyniadau aflwyddiannus o 35% yn 2005-06 i 31% yn 2007-08.

**Tabl 6:** **Cymharu Materion Allweddol sy'n Ymwneud â Dioddefwyr**

**Materion sy'n Ymwneud â Dioddefwyr mewn perthynas â phob Canlyniad**



**% Materion sy'n Ymwneud â Dioddefwyr**




| | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Volume | % | Volume | % |
| *Cyfanswm aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr* | *10,093* | *14.6%* | *10,559* | *14.0%* |
| Cyfanswm Aflwyddiannus | 24,094 | 35.0% | 23,478 | 31.1% |
| Cyfanswm Euogfarnau | 44,836 | 65.0% | 51,974 | 68.9% |
| Cyfanswm Erlyniadau | 68,930 | | 75,452 | |

## Categori'r prif drosedd

Ar ddiwedd achosion, rhoddir Categori'r Prif Drosedd ar gyfer achos pob diffynnydd er mwyn dangos y math o gyhuddiadau a ddwynwyd a'u difrifoldeb.

Troseddau corfforol oedd y categori mwyaf niferus, gan gynrychioli 62% o erlyniadau trosedd VAW yn 2007-08. Roedd Troseddau Rhywiol a difrod troseddol yn gyfrifol am 18% ac 11% pellach, yn y drefn honno. Wrth rannu'r categorïau yn ôl rhyw, gwelir bod patrwm tebyg wedi'i gofnodi ar gyfer diffynyddion oedd yn ddynion, gyda 61% yn cael eu categoreiddio yn droseddau corfforol, 17% yn droseddau rhywiol ac 11% yn ddifrod troseddol. Yr oedd patrwm ychydig yn wahanol ar gyfer diffynyddion oedd yn fenywod, gyda throseddau corfforol yn uwch ar 65%, tra oedd troseddau rhywiol yn is ar 10%; roedd difrod troseddol yn debyg ar 11%. Roedd troseddau trefn gyhoeddus yn gyfran ychydig yn uwch ar gyfer menywod nag ar gyfer dynion, ar 7% o gymharu â 5%. Dynion oedd 94% o'r diffynyddion y nodwyd mai troseddau corfforol oedd eu prif drosedd. Mewn achosion trais yn y cartref, troseddau corfforol oedd y mwyaf niferus ar gyfer dynion a menywod, ar 73% a 72% yn y drefn honno.

## Tynnu cyhuddiadau yn ôl


Er y sefydlwyd cyfleuster i gasglu gwybodaeth am fater tynnu'n ôl ers mis Ebrill 2007, y mae cyflawnrwydd a dibynadwyedd y data yn parhau i gael eu datblygu. Y mae gwaith ar y gweill ar gyfer 2009-2010 i wella casglu data ac ansawdd y data.

## Cydraddoldeb

### *(i) Diffynyddion*

**Rhyw**
Mae tabl 7 yn dadansoddi rhyw diffynyddion. Mae cyfran y dynion a erlynwyd wedi parhau fwy neu lai yr un fath ar 95% yn 2006-07 a 94% yn 2007-08. Yn y cyfnod olaf, dynion oedd 94% o'r diffynyddion mewn erlyniadau trais yn y cartref, 99% mewn achosion treisio, a 96% mewn troseddau rhywiol ac eithrio treisio. Mae treisio yn unigryw, a dyma'r unig drosedd rhyw-benodol yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003. Gellir erlyn menywod ar gyfer helpu ac annog yn unig.

**Tabl 7: Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Rhyw y Diffynnydd**




| | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 3,339 | 4.8% | 4,176 | 5.5% |
| Dynion | 65,580 | 95.1% | 71,263 | 94.4% |
| Ni wyddys | 11 | 0.0% | 13 | 0.0% |
| Cyfanswm | **68,930** | | **75,452** | |

## Ethnigrwydd

Bydd y CPS yn casglu data ethnigrwydd am ddiffynyddion yn unol â diffiniadau cytûn y System Cyfiawnder Troseddol ar gyfer yr 16+1 categori ethnig. Yn 2007-08, nodwyd bod 77% o ddiffynyddion trosedd VAW yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig, a chafodd 80% eu categoreiddio yn ddiffynyddion Gwyn. Nodwyd bod 5% o ddiffynyddion yn Asiaidd, a nodwyd bod 6% pellach yn Ddu. Nid oedd 4% o ddiffynyddion wedi datgan eu hethnigrwydd wrth gael eu harestio.

## Data cydraddoldeb arall


Bu darpariaeth ar gael ers Ebrill 2007 i gasglu data am grefydd neu gred ac anabledd diffynyddion. Fodd bynnag, mae cyflawnrwydd a chywirdeb y data yn parhau i gael eu datblygu.

### *(ii) Dioddefwyr*

**Rhyw**

Mae tabl 8 yn dadansoddi rhyw dioddefwyr. Fe ddaw data am dddioddefwyr o'r System Reoli Tystion, ac mae ar gael o Ebrill 2006 yn unig. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu ac mae gwaith ar y gweill i wella casglu data. Nid yw data yn cael ei gadw am ddioddefwyr troseddau rhywiol ac eithrio treisio. O blith y dioddefwyr hynny y nodwyd eu rhyw, y gyfran uchaf oedd menywod, ar 85% yn 2006-07 ac 86% yn 2007-08. Ble nodwyd rhyw yn 2007-08, roedd 86% o ddioddefwyr trais yn y cartref yn fenywod ac 87% yn fenywod mewn troseddau treisio.

**Tabl 8: Rhyw y dioddefwyr***




| | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Menywod | 7,892 | 29.3% | 19,514 | 37.3% |
| Dynion | 1,405 | 5.2% | 3,239 | 6.2% |
| Ni wyddys | 17,682 | 65.5% | 29,524 | 56.5% |
| Cyfanswm | 26,979 | | 52,277 | |

*Nid yw'r data yn cynnwys dioddefwyr Troseddau Rhywiol ac eithrio treisio.

Roedd data o 2006-07 yn adrodd am ddioddefwyr boed sifiliaid ai peidio, a data 2007-08 yn adrodd am ddioddefwyr sy'n sifiliaid yn unig.

## Data cydraddoldeb arall

Fe ddaw data am ddioddefwyr o'r System Reoli Tystion. Y mae data am ethnigrwydd ar gael o Ebrill 2006, a data am grefydd neu gred ac anabledd o Ebrill 2007. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu ac ni chafodd ei chynnwys yn yr adroddiad presennol. Y mae gwaith ar y gweill ar gyfer 2009-2010 i wella casglu data ac ansawdd y data.

## Gwasanaethau Trosedd Casineb

Casglwyd gwybodaeth am wasanaethau cefnogaeth arbenigol ar gyfer dioddefwyr trosedd casineb ers Ebrill 2007, ac mae'n parhau i gael ei ddatblygu hefyd. Hyd yn hyn, ni sefydlwyd system ar gyfer VAW, felly mae'r data isod yn cyfeirio at achosion trais yn y cartref yn 2007-08 yn unig. O blith y dioddefwyr a thystion i drais yn y cartref hynny a gyfeiriwyd at wasanaethau cefnogaeth neu asiantaeth arbenigol, cofnodwyd bod llai nag 1% wedi'u cyfeirio at 'asiantaeth arbenigol ar drosedd casineb'. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu: fodd bynnag, cyfeiriwyd ychydig dan 22% at un ai asiantaeth cefnogi dioddefwyr neu dystion, tra bo 77% yn destun 'cyfeirio arall'.

## Perthnasau – achosion Trais yn y Cartref yn unig

Er bod y cyfleuster i gasglu gwybodaeth am y berthynas rhwng y diffynnydd a'r dioddefwr mewn achosion trais yn y cartref wedi bod ar gael ers Ebrill 2007, mae cyflawnrwydd a chywirdeb y data yn parhau i gael eu datblygu. Y mae gwaith ar y gweill ar gyfer 2009-2010 i wella casglu data ac ansawdd y data.

# ❹ Trais yn y cartref

Cyhoeddodd y CPS ei Bolisi cyntaf ar gyfer Erlyn Achosion o Drais yn y Cartref yn 2001 er mwyn mynd i'r afael â chyfraddau athreuliad uchel. Enwebwyd Cydgysylltydd Trais yn y Cartref ym mhob Rhanbarth y CPS i oruchwylio gweithredu'r Polisi. Yn 2003, fe sefydlodd y CPS Brosiect Trais yn y Cartref, a oedd yn ceisio sefydlu mesurau i wella erlyniadau. Cafodd y Polisi ei ddiwygio yn 2004-05 ac fe'i cyhoeddwyd ochr yn ochr â Chanllaw ar gyfer erlynwyr yn Chwefror 2005. I gefnogi'r rhain, datblygwyd rhaglen gynhwysfawr ar drais yn y cartref a Chanllaw Arferion Da a'u rhoi ar waith ar draws y CPS. Cwblhawyd yr hyfforddiant erbyn Ebrill 2008[7]. Yn 2003, y CPS hefyd oedd Adran gyntaf y Llywodraeth i lunio Polisi Trais yn y Cartref i Weithwyr. Cafodd hwn ei ddiwygio yn 2007.

Mae Polisi a Chanllaw y CPS ar Erlyn Achosion o Drais yn y Cartref yn cael ei ddiwygio yn 2008 i adlewyrchu newidiadau i'r gyfraith, y drefn a datblygiadau eraill. Mae'r CPS yn gwneud hyn mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allanol a'r cyhoedd. Mae'r CPS hefyd yn datblygu rhaglen hyfforddiant newydd sy'n seiliedig ar achosion, yn ogystal â diwygio'r hyfforddiant ar y cyd rhwng yr Heddlu/CPS ar drais yn y cartref.

Y mae'r CPS hefyd yn rhan o Raglen Genedlaethol Llys Arbenigol Trais yn y Cartref (SDVC). Yn 2007-08 dewiswyd 34 SDVC pellach, gan fynd â'r cyfanswm at 98 erbyn Ebrill 2008. Cafodd chwech arall eu hachredu yn ystod yr hydref 2008, gan roi cyfanswm o 104 erbyn Tachwedd 2008. Bydd y CPS yn parhau i ddadansoddi data'r CPS ar Lysoedd Arbenigol Trais yn y Cartref bob chwarter. Mae'r Rhaglen Genedlaethol yn bwrw ymlaen â chynlluniau i ddatblygu SDVC ymhellach, gan anelu at 128 erbyn 2011.

Yn 2007-08 cafodd trais yn y cartref ei fonitro fel rhan o'r Dangosydd Trais yn y Cartref, gyda tharged penodol o ostwng canlyniadau erlyn aflwyddiannus i 30% erbyn Ebrill 2008. Aethpwyd y tu hwnt i'r targed hwn, gyda'r canlyniad cenedlaethol ar draws y Rhanbarth yn gostwng i 29.3%. Byddwn yn parhau i werthuso data'r CPS ar drais yn y cartref mewn perthynas â'r targed a bennir yn y Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, sef gostwng canlyniadau aflwyddiannus i 28% erbyn Ebrill 2009.

Mae'r CPS yn gweithio ar draws y llywodraeth at y Cynllun Cyflawni cenedlaethol ym maes Trais yn y Cartref.

**Astudiaeth Achos 1: Trais yn y Cartref**

*Mae'r achos hwn yn dangos gwaith partneriaeth da gyda'r heddlu a gwreiddioldeb wrth ddelio â dioddefwyr dan bwysau*

Roedd un achos trais yn y cartref yn ymwneud â menyw oedd yn briod ers dros ddeng mlynedd ar hugain ac a gafodd ei cham-drin y rhan fwyaf o'r cyfnod hwnnw. Yn y digwyddiad a erlynwyd, roedd ei gŵr wedi taflu ornament at ei phen a chafodd friw ar ei phen. Cafodd ei arestio a'i gyhuddo o ymosod dan Adran 47. Cafodd yr heddlu wybod drannoeth ei bod hi'n dymuno tynnu ei datganiad yn ôl. Aeth swyddog draw i'w chartref, gam wisgo camera pen. Fe wnaeth hi dynnu'r datganiad yn ôl ond gwnaeth hynny dan bwysau mawr o du un aelod o'r teulu, a chofnodwyd y cyfan ar y camera pen.

Plediodd y diffynnydd yn Ddieuog a rhestrwyd y treial. Ar y diwrnod, fe ddaeth y ddioddefwraig i'r llys ond dywedodd nad oedd hi'n dymuno dweud beth ddigwyddodd. Ceisiodd yr amddiffyniad roi pwysau ar yr erlynydd i ollwng yr achos oherwydd bod y ddioddefwraig yn dyst cyndyn. Ond, petai angen, bwriadai'r CPS ddefnyddio'r tâp o'r camera pen. Cafodd yr amddiffyniad wybod am y bwriad hwn ac yna fe blediodd y diffynnydd yn euog.

[7] Ac eithrio Llundain a gwblhaodd yn Nhachwedd 2008.

**Astudiaeth Achos 2: Trais yn y Cartref**

*Mae'r achos yn dangos gwaith Llysoedd Arbenigol Trais yn y Cartref (SDVC) a'r gefnogaeth a roddir gan Gynghorydd Annibynnol ar Drais yn y Cartref (IDVA)*

Mewn un achos, sefydlwyd cysylltiad rhwng y ddioddefwraig ag IDVA ar ôl iddi ddioddef camdriniaeth gan ei phartner ers blynyddoedd. Yn y digwyddiadau blaenorol, roedd y ddioddefwraig wedi tynnu ei chwynion yn ôl bob tro, gan ofni'r canlyniadau. Pan gafodd ei thrywanu'n ddifrifol gan ei phartner, roedd hi wedi cael digon.

Cafodd ei phartner ei arestio a'i gyhuddo, a chynigiwyd cefnogaeth iddi gan gynghorydd IDVA, ynghyd â gwybodaeth am achosion llys a sut i roi tystiolaeth, a chafodd wybod sut roedd yr achos yn datblygu. Er gwaethaf sawl ymgais gan ei phartner i roi pwysau arni i dynnu ei chŵyn yn ôl, oherwydd y gefnogaeth a gafodd hi fe benderfynodd barhau â'r achos.

Cafodd y diffynnydd ei ddyfarnu'n euog a dedfryd o garchar. Wynebodd gyhuddiadau pellach o geisio gwyrdroi cwrs cyfiawnder trwy ei rhoi hi dan bwysau i dynnu'r gŵyn yn ôl. Fe gysylltodd â hi tra oedd yn y carchar ond, gyda help yr IDVA, cymerwyd camau i sicrhau na fyddai'n cysylltu eto.

**Astudiaeth Achos 3: Trais yn y Cartref**

*Dyma achos lle penderfynwyd bwrw ymlaen heb y ddioddefwraig*

Roedd y ddioddefwraig yn gariad i'r diffynnydd. Yn ystod dadl fe wnaeth y diffynnydd ei bwrw a'i churo gan achosi marciau ar ei chefn. Bu trais yn y gorffennol hefyd, ond roedd y ddioddefwraig wedi bod yn rhy ofnus i ddweud wrth neb. Cafodd y dyn ei arestio, ei holi ac fe wadodd iddo ei tharo gyda'i ddwylo ond dywedodd iddo ei chwipio gyda belt i'w 'amddiffyn ei hun'. Bu'n rhaid iddi symud i loches, gan nad oedd ganddi unman i fynd. Tynnodd hi'r honiadau yn ôl oherwydd ei bod eisiau ailafael yn y berthynas.

Penderfynodd yr Erlyniad fwrw ymlaen heb ei thystiolaeth, ar sail cyfaddefiadau yn y cyfweliad, y dystiolaeth am ei niweidiau gan gynnwys ffotograffau, a'r ffaith nad oedd yn debygol y byddai honiad yr amddiffyniad iddo wneud hyn 'i'w amddiffyn ei hun' yn gredadwy gan fod ganddi niweidiau ar ei chefn. Plediodd y diffynnydd yn euog ar ddiwrnod y treial. Fe'i dedfrydwyd i orchymyn adsefydlu cymunedol o ddwy flynedd gydag amod y dylai fynychu rhaglen i gyflawnwyr trais yn y cartref. Fe'i gorchmynnwyd i dalu iawndal i'r ddioddefwraig hefyd.


# 5 Casgliadau allweddol am drosedd trais yn y cartref

Er Ebrill 2005 mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi bod yn adrodd ar erlyn troseddau trais yn y cartref fel rhan o'r broses adolygu perfformiad. Cafodd trais yn y cartref ei gynnwys yn adroddiadau'r CPS ar drosedd casineb hyd at Fawrth 2008, ond o Ebrill 2008 adroddir amdano fel rhan o'r strategaeth trais yn erbyn menywod (VAW), gan fesur perfformiad yn erbyn Dangosydd VAW newydd.

## Cyhuddo

Cododd nifer yr achosion ble penderfynodd y CPS y dylid cyhuddo diffynnydd o 61.7% o'r achosion trais yn y cartref a gyflwynwyd ar gyfer penderfyniadau cyn cyhuddo gan yr heddlu yn 2006-07, i 65.4% yn 2007-08.

**Tabl 1:** **Penderfyniadau Cyn Cyhuddo**





| | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Cyhuddwyd | 36,957 | 61.7% | 47,115 | 65.4% |
| Cais am ragor o dystiolaeth | 787 | 1.3% | 510 | 0.7% |
| Dim Erlyniad | 18,140 | 30.3% | 20,088 | 27.9% |
| Pob penderfyniad arall | 4,037 | 6.7% | 4,350 | 6.0% |
| Cyfanswm | 59,921 | | 72,063 | |

Rhoddwyd Cyhuddo Statudol ar waith yn llawn ar 3 Ebrill 2006

## Euogfarnau

Yn y tair blynedd yn diweddu Mawrth 2008, erlynwyd dros 170,000 diffynnydd am droseddau yn ymwneud â thrais yn y cartref. Mae tabl a siart 2 isod yn dadansoddi erlyniadau dros y cyfnod o dair blynedd, ac yn dangos i euogfarnau godi o 60% yn 2005-06 i 69% yn 2007-08.

**Tabl 2:** **Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Canlyniad**





| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 29,719 | 59.7% | 37,383 | 65.2% | 43,977 | 68.9% |
| Aflwyddiannus | 20,063 | 40.3% | 19,978 | 34.8% | 19,842 | 31.1% |
| Cyfanswm | 49,782 | | 57,361 | | 63,819 | |

Mae'r tabl a'r siartiau isod yn rhoi dadansoddiad manwl o ganlyniadau erlyniadau ar gyfer troseddau trais yn y cartref yn 2006-07 a 2007-08. Cododd pledion euog o 58% i 62%, gan gyfrannu at well cyfradd euogfarnu o 69% yn ei chyfanrwydd yn 2007-08. Bu gostyngiad yn yr erlyniadau a ollyngwyd gan y CPS, gan gynnwys terfynu achosion ac achosion ble na chynigiwyd tystiolaeth, o 28% i lai na 25%.


Yn 2007-08 y targed oedd gostwng erlyniadau trais yn y cartref aflwyddiannus i 30%, ac aethpwyd y tu hwnt i'r targed yn y pedwerydd chwarter ar 29.3%.

**Tabl 3: Canlyniadau Erlyn**

### Euogfarnau




### Canlyniadau Aflwyddiannus




| | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 689 | 1.2% | 772 | 1.2% |
| Achosion Traddodi a Ryddhawyd | 137 | 0.2% | 146 | 0.2% |
| Erlyniadau a Ollyngwyd *gan gynnwys dirwyn achosion i ben, ni chynigiwyd tystiolaeth a thynnu'n ôl* | 16,023 | 27.9% | 15,788 | 24.7% |
| *O'u plith – ni chynigiwyd tystiolaeth* | 7,730 | 13.5% | 8,505 | 13.3% |
| Gwrthodwyd ar ôl treial llawn | 2,302 | 4.0% | 2,359 | 3.7% |
| Dim achos i'w ateb | 274 | 0.5% | 253 | 0.4% |
| Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu | 87 | 0.2% | 83 | 0.1% |
| Rhyddfarnu gan reithgor | 466 | 0.8% | 441 | 0.7% |
| Canlyniadau Aflwyddiannus | 19,978 | 34.8% | 19,842 | 31.1% |
| Ple euog | 33,020 | 57.6% | 39,326 | 61.6% |
| Euogfarnu ar ôl treial | 4,246 | 7.4% | 4,552 | 7.1% |
| Profwyd yn absenoldeb | 117 | 0.2% | 99 | 0.2% |
| Euogfarnau | 37,383 | 65.2% | 43,977 | 68.9% |
| Cyfanswm Erlyniadau | 57,361 | | 63,819 | |

## Erlyniadau aflwyddiannus

Bydd achosion yn methu yn bennaf oherwydd tystiolaeth annigonol, oherwydd nad yw erlyn er budd y cyhoedd neu oherwydd bod y diffynnydd yn cael ei ryddfarnu yn y treial. Hefyd, fe geir achosion sy'n methu parhau oherwydd bod dioddefwr neu dyst yn methu mynychu neu'n tynnu cyhuddiadau yn ôl, a'r achosion hynny sy'n ddarostyngedig i gwblhau gwaith gweinyddol. Parhaodd y cyfrannau o fewn pob categori yn debyg o 2005-06 i 2007-08. Yn 2007-08, roedd 3.9% yn aflwyddiannus am resymau gweinyddol; 35.3% am resymau tystiolaethol; 7.2% oherwydd budd y cyhoedd; roedd 34.7% yn methu parhau, a 18.8% am resymau eraill gan gynnwys rhyddfarnu ar ôl treial.

Mae tabl 4 yn rhoi dadansoddiad manylach, gan ddangos y gyfran sy'n methu oherwydd materion gyda dioddefwyr (gan gynnwys dioddefwyr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl ac achosion ble bydd dioddefwr yn methu mynychu gwrandawiad llys), y rhai sy'n arwain at rwymo, a'r rhai ble cafodd y diffynnydd rybuddiad. O fewn y rhesymau allweddol hyn, dioddefwyr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl oedd yn parhau i fod y categori unigol mwyaf, a phrin fu'r newid dros gyfnod yr adolygiad ar 21% i 22%. Fodd bynnag, bu cynnydd sylweddol yn y gyfran a fethodd oherwydd i ddioddefwr fethu mynychu, o 8% i 12%, ac yn y gyfran ble nad oedd tystiolaeth y dioddefwyr yn cefnogi achos yr erlyniad, o 13% i 17%. Parhaodd y gyfran a fethodd oherwydd rhesymau allweddol yn sefydlog at ei gilydd, ar 58% o'r holl ganlyniadau aflwyddiannus.

## Tabl 4: Rhesymau Allweddol dros Erlyniadau Aflwyddiannus





| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Dioddefwr yn Tynnu Cyhuddiad yn ôl | 4,214 | 21.0% | 4,441 | 22.2% | 4,207 | 21.2% |
| Dioddefwr Ddim yn Mynychu | 1,593 | 7.9% | 1,914 | 9.6% | 2,409 | 12.1% |
| Tystiolaeth Dioddefwr ddim yn cefnogi achos | 2,613 | 13.0% | 3,142 | 15.7% | 3,406 | 17.2% |
| Rhybuddiad | 296 | 1.5% | 274 | 1.4% | 234 | 1.2% |
| Rhwymo | 2,997 | 14.9% | 1,909 | 9.6% | 1,311 | 6.6% |
| *Cyfanswm Prif Resymau* | *11,713* | *58.4%* | *11,680* | *58.5%* | *11,567* | *58.3%* |
| Pob Rheswm Arall | 7,585 | 37.8% | 7,609 | 38.1% | 7,503 | 37.8% |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 765 | 3.8% | 689 | 3.4% | 772 | 3.9% |
| Cyfanswm | 20,063 | | 19,978 | | 19,842 | |


Mae tabl a siart 5 yn dangos nifer a chyfran y materion sy'n ymwneud â dioddefwyr mewn perthynas â phob canlyniad. Er bod cynnydd yn nifer a chyfran y rhai a fu'n aflwyddiannus oherwydd anawsterau dioddefwyr, o 8,420 yn 2005-06 i 10,022 yn 2007-08, bu cwymp bach yn gyfrannol, o 16.9% i 15.7%. Cwympodd cyfanswm y canlyniadau aflwyddiannus o 40% yn 2005-06 i 31% yn 2007-08.

## Tabl 5: Cymharu Materion Allweddol sy'n Ymwneud â Dioddefwyr

### Materion sy'n Ymwneud â Dioddefwyr mewn perthynas â phob canlyniad




### % Materion sy'n Ymwneud â Dioddefwyr




| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| *Cyfanswm aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr* | *8,420* | *16.9%* | *9,497* | *16.6%* | *10,022* | *15.7%* |
| Cyfanswm Aflwyddiannus | 20,063 | 40.3% | 19,978 | 34.8% | 19,842 | 31.1% |
| Cyfanswm Euogfarnau | 29,719 | 59.7% | 37,383 | 65.2% | 43,977 | 68.9% |
| Cyfanswm Erlyniadau | 49,782 | | 57,361 | | 63,819 | |

## Categori'r prif drosedd

Troseddau corfforol oedd y categori mwyaf niferus, gan gynrychioli 73% o erlyniadau trosedd trais yn y cartref yn 2007-08. Roedd difrod troseddol a threfn gyhoeddus yn gyfrifol am 13% a 6% arall yn y drefn honno. Wrth rannu'r categorïau yn ôl rhyw gwelir bod patrwm tebyg wedi'i gofnodi ar gyfer dynion, gyda 73% yn cael eu categoreiddio yn droseddau corfforol, 13% yn ddifrod troseddol, a 6% yn drefn gyhoeddus. Yr oedd patrwm ychydig yn wahanol ar gyfer menywod, gyda throseddau corfforol ychydig yn is ar 72% a difrod troseddol yn is ar 12%, tra oedd trefn gyhoeddus ychydig yn uwch ar 8%. Dynion oedd 94% o'r diffynyddion y nodwyd mai troseddau corfforol oedd eu prif drosedd.

## Tynnu cyhuddiadau yn ôl

Er y sefydlwyd cyfleuster i gasglu gwybodaeth am fater tynnu'n ôl ers mis Ebrill 2007, y mae cyflawnrwydd a dibynadwyedd y data yn parhau i gael eu datblygu. Y mae gwaith ar y gweill ar gyfer 2009-2010 i wella casglu data ac ansawdd y data.


## Cydraddoldeb

### *(i) Diffynyddion*

**Rhyw**

Mae tabl 6 yn dadansoddi rhyw diffynyddion. Mae cyfran y diffynyddion sy'n ddynion wedi parhau fwy neu lai'r un peth ar 95% yn 2005-06 a 94% yn 2007-08.

**Tabl 6: Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Rhyw y Diffynnydd**




| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 2,579 | 5.2% | 2,956 | 5.2% | 3,770 | 5.9% |
| Dynion | 47,198 | 94.8% | 54,396 | 94.8% | 60,037 | 94.1% |
| Ni wyddys | 5 | 0.0% | 9 | 0.0% | 12 | 0.0% |
| Cyfanswm | 49,782 | | 57,361 | | 63,819 | |

## Ethnigrwydd

Bydd y CPS yn casglu data ethnigrwydd am ddiffynyddion yn unol â diffiniadau cytûn y System Cyfiawnder Troseddol ar gyfer yr 16+1 categori ethnig. Yn 2007-08, nodwyd bod 78% o ddiffynyddion trosedd trais yn y cartref yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig, a chafodd 81% eu categoreiddio yn ddiffynyddion Gwyn. Nodwyd bod ychydig dan 5% o ddiffynyddion yn Asiaidd, a nodwyd bod 6% pellach yn Ddu. Nid oedd 3% o ddiffynyddion wedi datgan eu hethnigrwydd.

## Data cydraddoldeb arall


Bu darpariaeth ar gael ers Ebrill 2007 i gasglu data am grefydd neu gred ac anabledd diffynyddion. Fodd bynnag, mae cyflawnrwydd a chywirdeb y data yn parhau i gael eu datblygu.

### *(ii) Dioddefwyr*

**Rhyw**

Mae tabl 7 yn dadansoddi rhyw dioddefwyr. Fe ddaw data am ddioddefwyr o'r System Reoli Tystion, ac mae ar gael o Ebrill 2006 yn unig. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu ac mae gwaith ar y gweill i wella casglu data. O blith y dioddefwyr hynny y nodwyd eu rhyw, y gyfran uchaf oedd menywod, ar 85% yn 2006-07 ac 86% yn 2007-08.

**Tabl 7: Rhyw y Dioddefwyr**




| | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 7,477 | 29.3% | 18,461 | 37.5% |
| Dynion | 1,341 | 5.3% | 3,078 | 6.3% |
| Ni wyddys | 16,693 | 65.4% | 27,695 | 56.3% |
| Cyfanswm | 25,511 | | 49,234 | |

## Data cydraddoldeb arall

Mae data am ddioddefwyr yn cael ei dynnu o'r System Reoli Tystion. Y mae data am ethnigrwydd ar gael o Ebrill 2006, a data am grefydd neu gred ac anabledd o Ebrill 2007. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu ac ni chynhwyswyd ffigurau yn yr adroddiad presennol. Y mae gwaith ar y gweill ar gyfer 2009-2010 i wella casglu data ac ansawdd y data.

## Gwasanaethau Trosedd Trais yn y Cartref

Casglwyd y wybodaeth hon ers Ebrill 2007, ac mae'n parhau i gael ei datblygu hefyd. O blith y dioddefwyr a thystion hynny a gyfeiriwyd at wasanaethau cefnogaeth neu asiantaeth arbenigol, cofnodwyd bod llai nag 1% wedi'u cyfeirio at 'asiantaeth arbenigol'[8]. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu. Fodd bynnag, cyfeiriwyd 22% at un ai asiantaeth cefnogi dioddefwyr neu dystion, tra bo 77% yn destun 'cyfeirio arall'.

## Perthnasau Trais yn y Cartref

Er bod y cyfleuster i gasglu gwybodaeth am y berthynas rhwng y diffynnydd a'r dioddefwr mewn achosion trais yn y cartref wedi bod ar gael ers Ebrill 2007, mae cyflawnrwydd a chywirdeb y data yn parhau i gael eu datblygu. Y mae gwaith ar y gweill ar gyfer 2009-2010 i wella casglu data ac ansawdd y data.

[8] Cyflwynwyd maes newydd 'gwasanaethau trosedd casineb' yn Nhachwedd 2007 i fonitro cyfeirio at asiantaethau arbenigol, gan gynnwys asiantaethau trais yn y cartref.

# 6 Treisio

Cyhoeddodd y CPS ei Bolisi cyntaf ar gyfer Erlyn Achosion Treisio yn 2005 i egluro'r ffordd y byddwn yn delio ag achosion o'r fath a disgrifio safon y gwasanaeth y gallai dioddefwyr a thystion ei ddisgwyl. Mae'r Polisi yn cael ei ddiwygio ar hyn o bryd i adlewyrchu newidiadau i'r gyfraith, y drefn a datblygiadau eraill. Mae hyn mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allanol a'r cyhoedd. Rhagwelir y bydd y Polisi diwygiedig yn cael ei lansio yn gynnar yn 2009.

Mae'r CPS yn mynd i'r afael â'r gyfradd euogfarnu isel ac amrywiadau rhanbarthol yn y gyfraddau euogfarnu mewn achosion treisio trwy gyfrwng system reoli perfformiad newydd a gyflwynwyd yn 2007. Mae'n golygu monitro ac asesu yn erbyn meini prawf cenedlaethol sy'n cael eu cymhwyso'n gyson, a defnyddio'r wybodaeth honno'n ganolog i gael trosolwg ac ymyrryd ble bo'n briodol.

Mae'r CPS wedi ymrwymo i wella erlyniadau am dreisio. I'r perwyl hwn, mabwysiadwyd y cyfan ond un o argymhellion adroddiad Without Consent a sefydlwyd Uned Gyflawni ym maes Erlyniadau Treisio yn 2007 mewn Pencadlysoedd i oruchwylio'r ffordd y'u gweithredir.

Cyflwynwyd safon ar gyfer erlynwyr arbenigol ym maes treisio yng Ngorffennaf 2007 gan bennu lefelau safonol ar gyfer hyfforddiant ac arbenigedd.

Mae cwrs hyfforddiant newydd ar erlyn treisio, sef rhan o'r rhaglen ragweithiol i erlynwyr, yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd i Gydgysylltwyr Treisio Rhanbarthol ac ar ôl hynny bydd yn cael ei ymestyn i bob erlynydd treisio arbenigol erbyn 2011. Cafodd Llawlyfr Erlyn Treisio gan yr CPS ei ysgrifennu a'i gyhoeddi ar yr Infonet. Mae hwn yn disgrifio arferion gorau wrth erlyn achosion treisio a sicrhau gofal i ddioddefwyr a thystion. Yn ogystal, mae pecyn e-ddysgu, yn seiliedig ar y Llawlyfr Treisio, yn cael ei ddatblygu i gyd-fynd â'r hyfforddiant yn y stafell ddosbarth. Rhagwelir y bydd hwn yn cael ei lansio ddiwedd 2008.

Dosbarthwyd rhestr wirio "Camau Hanfodol" ym mis Awst 2007 sy'n disgrifio'r broses i'w dilyn ym mhob achos treisio ynghyd â rhestr wirio Cyngor/Adolygu i atgoffa erlynwyr i ystyried pob trywydd tystiolaethol wrth gynghori'r heddlu ac adolygu achosion treisio. Bydd hyn yn cael ei fonitro'n lleol.

Mae cyfweliadau cyn treial gyda thystion yn cael eu rhoi ar waith yn genedlaethol. Mae'r rhain yn debygol o fod yn erfyn defnyddiol i erlynwyr sy'n adolygu achosion treisio a darpar achosion VAW eraill a chaniatáu iddynt gwrdd â'r tyst ac egluro neu asesu eu tystiolaeth yn uniongyrchol yn ogystal â rhoi cyfle i egluro'r broses droseddol wrth y tyst.

Lansiwyd protocol ar y cyd rhwng ACPO/CPS ym Mawrth 2008 ac mae prosiect i ddatblygu Llawlyfr Treisio ar y cyd rhwng ACPO/CPS yn dod yn ei flaen yn dda; rhagwelir y bydd yn cael ei lansio ar ddiwedd 2008.

Cynhelir seminarau ar gyfer Cydgysylltwyr Treisio Rhanbarthol yn rheolaidd gan roi fforwm trafod a rhannu arferion da yn ogystal â siaradwyr allanol. Bydd cynhadledd ar y cyd gan y CPS/ACPO ar Dreisio yn cael ei chynnal yn fuan yn 2009 i gyd-fynd â lansio'r Datganiad Polisi diwygiedig ar Dreisio.

Cyhoeddir cylchlythyr chwarterol ar Droseddau Rhywiol Difrifol. Mae'n cynnwys crynodeb o gyfraith achosion ac erthyglau am gyfraith hawliau a threfn, yn ogystal â chyfraniadau gan y gefnogaeth arbenigol.

Yn 2007-08 adolygwyd erlyniadau treisio fel rhan o Adolygiad Perfformiad Rhanbarthol. Yn 2008-09 bydd data'r CPS am dreisio a throsedd rhywiol yn cael ei adolygu mewn perthynas â'r targedau a bennir yn y Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, sef gostwng canlyniadau aflwyddiannus i 41% a 28% erbyn Ebrill 2009.

Mae'r CPS yn gweithio ar draws y llywodraeth at y Cynllun Gweithredu cenedlaethol ar Drais a Chamdriniaeth Rywiol ('SVAAP') a gyhoeddwyd yn 2007.

**Astudiaeth Achos 1: Treisio**

Ymosodwyd yn rhywiol ar ddioddefwraig 21 mlwydd oed tra oedd hi'n anymwybodol ac o flaen ei phlant. Bu'r tri diffynnydd yn ffilmio'r ymosodiad ar eu ffonau symudol. Cyflawnodd y ddioddefwraig hunanladdiad tua thri mis ar ôl dod i wybod am yr ymosodiad arni. Plediodd dau ddiffynnydd yn euog. Dedfrydwyd un i ddedfryd benagored er diogelwch y cyhoedd (IPP) am gyfnod o ddwy flynedd a hanner o leiaf a dedfrydwyd y llall i bedair blynedd dan glo. Dyfarnwyd un diffynnydd yn euog yn dilyn treial ac fe'i carcharwyd am ddeng mlynedd. Fe wnaeth y diffynnydd a ddedfrydwyd i'r ddedfryd IPP o ddwy flynedd a hanner apelio at y Llys Apêl ar y sail na ddylai'r barnwr fod wedi asesu ei fod yn beryglus. Ni roddwyd caniatâd iddo apelio gan y barnwr unigol yn y Llys Apêl.

**Astudiaeth Achos 2: Treisio gweithwraig ryw**

Roedd y ddioddefwraig, a oedd weithiau'n gweithio fel putain, yn cerdded adref yn ystod oriau mân y bore, ar ôl gadael tŷ ffrind, ble bu'n aros, yn dilyn dadl. Oedodd y diffynnydd yn ei gar wrth ei hymyl a gofyn a oedd hi'n gweithio. Cytunodd hi a mynd i mewn i'r car, ac aethpwyd â hi i fflat cariad y diffynnydd, (roedd ei gariad i ffwrdd).

Fe gyflawnodd hi rai gwasanaethau rhywiol ond pan ddaeth yr amser i ben roedd hi eisiau stopio. Fe wnaeth ef ei gorfodi i gyflawni gweithgareddau rhywiol eraill gan gynnwys ei threisio. Llwyddodd hi i ddianc a chysylltodd â'r heddlu drannoeth. Fe gafodd y dyn ei arestio ac i ddechrau fe wadodd iddo ei threisio ond cyfaddefodd i dreiddio rhannol ddigwydd, unwaith i swabiau gael eu cymryd.

Nid yn unig roedd y ddioddefwraig yn gweithio'n rhan amser fel putain, roedd hi hefyd yn defnyddio cyffuriau a bu'n anodd cadw mewn cysylltiad â hi oherwydd ei throseddau hithau. Roedd yr achos yn dibynnu'n llwyr ar ei hadroddiad hi, a'r ffaith fod y diffynnydd wedi newid ei stori rhwng ei ddau gyfweliad. Rhoddodd hi ei thystiolaeth ar DVD, sydd bellach yn cael ei ganiatáu ar gyfer cwynion o droseddau rhywiol gan oedolion. Ni chaniatawyd cais am fesurau arbennig ar ffurf cyswllt fideo a chyswllt byw yn y treial ac ar y diwrnod cyntaf ni ddaeth y ddioddefwraig i'r llys. Ond fe fynychodd a rhoi tystiolaeth ar yr ail ddiwrnod, ac yn dilyn treial fe ddyfarnwyd y diffynnydd yn euog.


# 7 Casgliadau allweddol trosedd treisio

Ers Ebrill 2005 mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi adrodd ynghylch erlyn troseddau treisio fel rhan o'r strategaeth Trais yn erbyn Menywod (VAW), yn ogystal â mesur perfformiad o fewn y broses adolygu perfformiad.

## Cyhuddo

Cododd nifer yr achosion ble penderfynodd y CPS y dylid cyhuddo diffynnydd o 32.7% o achosion treisio a gyflwynwyd ar gyfer penderfyniadau cyn cyhuddo gan yr heddlu yn 2006-07, i 40% yn 2007-08. Y mae gwaith pellach ar y gweill i wella cyfraddau cyhuddo.

**Tabl 1: Penderfyniadau Cyn Cyhuddo**





| Pob Diffynnydd | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Volume | % | Volume | % |
| Cyhuddwyd | 1,963 | 32.7% | 2,220 | 40.0% |
| Cais am ragor o dystiolaeth | 110 | 1.8% | 55 | 1.0% |
| Dim Erlyniad | 3,559 | 59.3% | 3,025 | 54.5% |
| Pob penderfyniad arall | 369 | 6.1% | 251 | 4.5% |
| Cyfanswm | 6,001 | | 5,551 | |

Rhoddwyd Cyhuddo Statudol ar waith yn llawn ar 3 Ebrill 2006

## Euogfarnau

Yn y ddwy flynedd yn diweddu ym mis Mawrth 2008, erlynwyd dros 6,700 diffynnydd am droseddau yn ymwneud â threisio. Mae tabl a siart 2 isod yn dadansoddi erlyniadau dros y cyfnod o ddwy flynedd, gan ddangos bod euogfarnau wedi codi o 55% yn 2006-07 i 58% yn 2007-08. Yn ystod pedwerydd chwarter 2007-08, roedd euogfarnau ar gyfer troseddau treisio yn 61%.

**Tabl 2: Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Canlyniad**





| | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 1,778 | 54.5% | 2,021 | 57.7% |
| Aflwyddiannus | 1,486 | 45.5% | 1,482 | 42.3% |
| Cyfanswm | 3,264 | | 3,503 | |


Mae'r tabl a'r siatiau isod yn rhoi dadansoddiad manwl o ganlyniadau erlyn ar gyfer troseddau treisio yn 2006-07 a 2007-08. Cododd pledion euog o 33% i 35%, gan gyfrannu at well cyfradd euogfarnu yn gyffredinol sef 58% yn 2007-08. Bu gostyngiad yn yr erlyniadau a ollyngwyd gan y CPS, gan gynnwys terfynu achosion ac achosion ble na chynigiwyd tystiolaeth, o 24% i lai na 23%.

**Tabl 3: Canlyniadau Erlyn**

**Euogfarnau**




**Canlyniadau aflwyddiannus**





| | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 29 | 0.9% | 37 | 1.1% |
| Achosion Traddodi a Ryddhawyd | 7 | 0.2% | 7 | 0.2% |
| Erlyniadau a Ollyngwyd gan gynnwys dirwyn achosion i ben, ni chynigiwyd tystiolaeth a thynnu'n ôl | 780 | 23.9% | 795 | 22.7% |
| *o'u plith – ni chynigiwyd tystiolaeth* | *486* | *14.9%* | *494* | *14.1%* |
| Gwrthodwyd ar ôl treial llawn | 7 | 0.2% | 5 | 0.1% |
| Dim achos i'w ateb | 1 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu | 84 | 2.6% | 99 | 2.8% |
| Rhyddfarnu gan reithgor | 578 | 17.7% | 539 | 15.4% |
| Canlyniadau Aflwyddiannus | 1,486 | 45.5% | 1,482 | 42.3% |
| Ple euog | 1,077 | 33.0% | 1,235 | 35.3% |
| Euogfarnu ar ôl treial | 701 | 21.5% | 786 | 22.4% |
| Profwyd yn absenoldeb | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| Euogfarnau | 1,778 | 54.5% | 2,021 | 57.7% |
| Cyfanswm Erlyniadau | 3,264 | | 3,503 | |

## Erlyniadau aflwyddiannus

Bydd achosion yn methu yn bennaf oherwydd tystiolaeth annigonol, oherwydd na fyddai erlyn er budd y cyhoedd neu oherwydd bod y diffynnydd yn cael ei ryddfarnu yn y treial. Hefyd, fe geir achosion sy'n methu parhau oherwydd bod dioddefwr neu dyst yn methu mynychu neu'n tynnu cyhuddiadau yn ôl, a'r achosion hynny sy'n ddarostyngedig i gwblhau gwaith gweinyddol. Roedd y cyfrannau o fewn pob categori yn dangos peth amrywiad o 2006-07 i 2007-08. Yn 2007-08, roedd 2.5% yn aflwyddiannus am resymau gweinyddol a 4.9% am resymau budd y cyhoedd, yn debyg i'r flwyddyn flaenorol. Ond, fe gododd rhesymau tystiolaethol dros achosion yn methu 4 pwynt canran to 45.3%; roedd 9.5% yn methu parhau, sef gostyngiad o 3 pwynt canran, ac roedd 37.8% yn rhesymau eraill, gan gynnwys rhyddfarnu ar ôl treial, sef gostyngiad o tua 2 bwynt canran.

Mae tabl 4 yn rhoi dadansoddiad manylach, gan ddangos y gyfran sy'n methu oherwydd materion gyda dioddefwyr (gan gynnwys dioddefwyr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl ac achosion ble bydd dioddefwr yn methu mynychu gwrandawiad llys), y rhai sy'n arwain at rwymo, a'r rhai ble cafodd y diffynnydd rybuddiad. O fewn y rhesymau allweddol hyn, dioddefwyr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl a'r rhai ble nad oedd tystiolaeth y dioddefwyr yn cefnogi'r achos oedd yn parhau i fod y categorïau mwyaf, a phrin fu'r newid dros gyfnod yr adolygiad ar 18% i 17% o ganlyniadau aflwyddiannus. Ond, o fewn y 17%, a gofnodwyd yn 2007-08, bu gostyngiad o 2 bwynt canran yn y dioddefwyr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl i 8.6%, tra bu cynnydd o dros 1 pwynt canran yn yr achosion ble nad oedd tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi achos yr erlyniad, i 8.8%. Parhaodd y gyfran a fethodd oherwydd rhesymau allweddol gyda dioddefwyr yn sefydlog, ar 19% o'r holl ganlyniadau aflwyddiannus. O blith y rhesymau oedd yn weddill ar gyfer canlyniadau aflwyddiannus mewn achosion treisio, roedd 36% oherwydd rhyddfarnu, 13% oherwydd tyst neu dystion annibynadwy ac 11% oherwydd tystiolaeth anghyson.

**Tabl 4: Rhesymau Allweddol dros Erlyniadau Aflwyddiannus**





| | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Dioddefwr yn Tynnu Cyhuddiad yn ôl | 162 | 10.9% | 128 | 8.6% |
| Dioddefwr Ddim yn Mynychu | 15 | 1.0% | 9 | 0.6% |
| Tystiolaeth Dioddefwr ddim yn cefnogi achos | 109 | 7.3% | 131 | 8.8% |
| Rhybuddiad | 6 | 0.4% | 7 | 0.5% |
| Rhwymo | 0 | 0.0% | 5 | 0.3% |
| *Cyfanswm Prif Resymau* | *292* | *19.7%* | *280* | *18.9%* |
| Pob Rheswm Arall | 1,165 | 78.4% | 1,165 | 78.6% |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 29 | 2.0% | 37 | 2.5% |
| Cyfanswm | 1,486 | | 1,482 | |


Mae tabl a siart 5 yn dangos nifer a chyfran y materion sy'n ymwneud â dioddefwyr mewn perthynas â phob canlyniad. Bu cwymp bach yn niferoedd a chyfran y rhai a fu'n aflwyddiannus oherwydd anawsterau dioddefwyr o 286 (8.8%) yn 2006-07 i 268 (7.7%) yn 2007-08. Cwympodd cyfanswm y canlyniadau aflwyddiannus o dros 45% yn 2006-07 i 42% yn 2007-08.

**Tabl 5: Cymharu Materion Allweddol sy'n Ymwneud â Dioddefwyr**

**Materion sy'n Ymwneud â Dioddefwyr mewn perthynas â phob canlyniad**




**% Materion sy'n Ymwneud â Dioddefwyr**




| | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| *Cyfanswm aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr* | *286* | *8.8%* | *268* | *7.7%* |
| Cyfanswm Aflwyddiannus | 1,486 | 45.5% | 1,482 | 42.3% |
| Cyfanswm Euogfarnau | 1,778 | 54.5% | 2,021 | 57.7% |
| Cyfanswm Erlyniadau | 3,264 | | 3,503 | |

## Tynnu cyhuddiadau yn ôl


Er y sefydlwyd cyfleuster i gasglu gwybodaeth am fater tynnu'n ôl ers mis Ebrill 2007, y mae cyflawnrwydd a dibynadwyedd y data yn parhau i gael eu datblygu. Y mae gwaith ar y gweill ar gyfer 2009-2010 i wella casglu data ac ansawdd y data.

# Cydraddoldeb

## *(i) Diffynyddion*

**Rhyw**
Mae tabl 6 yn dadansoddi rhyw diffynyddion. Parhaodd cyfran y diffynyddion oedd yn ddynion yr un fath ar 99% yn 2006-07 a 2007-08.

**Tabl 6: Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Rhyw y Diffynnydd**




| | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Volume | % | Volume | % |
| Menywod | 35 | 1.1% | 38 | 1.1% |
| Dynion | 3,227 | 98.9% | 3,465 | 98.9% |
| Ni wyddys | 2 | 0.1% | 0 | 0.0% |
| Cyfanswm | 3,264 | | 3,503 | |

# Ethnigrwydd

Bydd y CPS yn casglu data ethnigrwydd am ddiffynyddion yn unol â diffiniadau cytûn y System Cyfiawnder Troseddol ar gyfer yr 16+1 categori ethnig. Yn 2007-08, nodwyd bod 59% o ddiffynyddion trosedd treisio yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig, a chafodd 64% eu categoreiddio yn ddiffynyddion Gwyn. Nodwyd bod 7% o ddiffynyddion yn Asiaidd, 6% yn Garibïaidd, 5% yn Affricanaidd, a 2% o gefndiroedd Du "eraill". Nid oedd 6% o ddiffynyddion wedi datgan eu hethnigrwydd.


# Data cydraddoldeb arall

Bu data am grefydd neu gred ac anabledd diffynyddion yn cael ei gasglu ers Ebrill 2007 ac mae cyflawnrwydd a chywirdeb y data hwn yn parhau i gael eu datblygu.

## *(ii) Dioddefwyr*

**Rhyw**
Mae tabl 7 yn dadansoddi rhyw dioddefwyr. Fe ddaw data am dddioddefwyr o'r System Reoli Tystion, ac mae ar gael o Ebrill 2006 yn unig. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu ac mae gwaith ar y gweill i wella casglu data. O blith y dioddefwyr hynny y nodwyd eu rhyw, y gyfran uchaf oedd menywod, ar 87% yn y ddau gyfnod.

**Tabl 7:** **Rhyw y Dioddefwyr**




| | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Menywod | 415 | 28.3% | 1,053 | 34.6% |
| Dynion | 64 | 4.4% | 161 | 5.3% |
| Ni wyddys | 989 | 67.4% | 1,829 | 60.1% |
| Cyfanswm | **1,468** | | **3,043** | |

## Data cydraddoldeb arall

Mae data am ddioddefwyr yn cael ei dynnu o'r System Reoli Tystion. Y mae data am ethnigrwydd ar gael o Ebrill 2006, a data am grefydd neu gred ac anabledd o Ebrill 2007. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu ac ni chynhwysywyd ffigurau yn yr adroddiad presennol. Y mae gwaith ar y gweill ar gyfer 2009-2010 i wella casglu data ac ansawdd y data.

# 8 Casgliadau allweddol troseddau rhywiol ac eithrio treisio

Ers Ebrill 2005 mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi adrodd ynghylch erlyn troseddau troseddau rhywiol (ac eithrio achosion treisio) fel rhan o'r strategaeth Trais yn erbyn Menywod (VAW), yn ogystal â mesur perfformiad o fewn y broses adolygu perfformiad.


## Cyhuddo

Nid yw cofnodion y CPS yn cynnwys unrhyw arwydd o benderfyniadau cyn cyhuddo ynghylch troseddau rhywiol, gan fod categori'r prif drosedd yn cael ei ddyrannu i achosion ar ddiwedd achos yr erlyniad yn unig.

## Euogfarnau

Yn y ddwy flynedd yn diweddu Mawrth 2008, erlynwyd dros 16,400 diffynnydd am droseddau yn ymwneud â throseddau rhywiol ac eithrio treisio. Mae tabl a siart 1 isod yn dadansoddi erlyniadau dros y cyfnod o ddwy flynedd, gan ddangos bod euogfarnau wedi codi o 68% yn 2006-07 i 74% yn 2007-08.

**Tabl 1:** **Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Canlyniad**





| | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 5,675 | 68.3% | 5,976 | 73.5% |
| Aflwyddiannus | 2,630 | 31.7% | 2,154 | 26.5% |
| Cyfanswm | 8,305 | | 8,130 | |


Mae'r tabl a'r siartiau isod yn dadansoddi erlyniadau yn fanwl ar gyfer canlyniadau troseddau rhywiol yn 2006-07 a 2007-08. Cododd pledion euog o 53% i 58%, gan gyfrannu at well cyfradd euogfarnu o 74% yn 2007-08 o gymharu â 68% yn y flwyddyn flaenorol. Bu gostyngiad yn yr erlyniadau a ollyngwyd gan y CPS, gan gynnwys terfynu achosion ac achosion ble na chynigiwyd tystiolaeth, o 16% i 14%.

**Tabl 2: Canlyniadau Erlyn**

**Euogfarnau**




**Canlyniadau aflwyddiannus**




| | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 56 | 0.7% | 49 | 0.6% |
| Achosion Traddodi a Ryddhawyd | 55 | 0.7% | 56 | 0.7% |
| Erlyniadau a Ollyngwyd *gan gynnwys dirwyn achosion i ben, ni chynigiwyd tystiolaeth a thynnu'n ôl* | 1,339 | 16.1% | 1,140 | 14.0% |
| *o'u plith – ni chynigiwyd tystiolaeth* | *674* | *8.1%* | *636* | *7.8%* |
| Gwrthodwyd ar ôl treial llawn | 223 | 2.7% | 195 | 2.4% |
| Dim achos i'w ateb | 38 | 0.5% | 13 | 0.2% |
| Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu | 104 | 1.3% | 70 | 0.9% |
| Rhyddfarnu gan reithgor | 815 | 9.8% | 631 | 7.8% |
| Canlyniadau Aflwyddiannus | 2,630 | 31.7% | 2,154 | 26.5% |
| Ple euog | 4,398 | 53.0% | 4,746 | 58.4% |
| Euogfarnu ar ôl treial | 1,262 | 15.2% | 1,210 | 14.9% |
| Profwyd yn absenoldeb | 15 | 0.2% | 20 | 0.2% |
| Euogfarnau | 5,675 | 68.3% | 5,976 | 73.5% |
| Cyfanswm Erlyniadau | 8,305 | | 8,130 | |

## Erlyniadau aflwyddiannus

Bydd achosion yn methu yn bennaf oherwydd tystiolaeth annigonol, oherwydd na fyddai erlyn er budd y cyhoedd neu oherwydd bod y diffynnydd yn cael ei ryddfarnu yn y treial. Hefyd, fe geir achosion sy'n methu parhau oherwydd bod dioddefwr neu dyst yn methu mynychu neu'n tynnu cyhuddiadau yn ôl, a'r achosion hynny sy'n ddarostyngedig i gwblhau gwaith gweinyddol. Roedd y cyfrannau o fewn pob categori yn debyg yn 2006-07 a 2007-08. Yn 2007-08, roedd 2.3% yn aflwyddiannus am resymau gweinyddol; 38% am resymau tystiolaethol; 10.5% oherwydd budd y cyhoedd; 9.6% oherwydd bod achos yn methu parhau, a 39.6% am resymau eraill gan gynnwys rhyddfarnu ar ôl treial.

Mae tabl 3 yn rhoi dadansoddiad manylach, gan ddangos y gyfran sy'n methu oherwydd materion gyda dioddefwyr (gan gynnwys dioddefwyr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl ac achosion ble bydd dioddefwr yn methu mynychu gwrandawiad llys), y rhai sy'n arwain at rwymo, a'r rhai ble cafodd y diffynnydd rybuddiad. O fewn y rhesymau allweddol hyn, dioddefwyr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl a'r rhai ble nad oedd tystiolaeth y dioddefwyr yn cefnogi'r achos oedd yn parhau i fod y categorïau mwyaf, a phrin fu'r newid dros gyfnod yr adolygiad ar 10% o ganlyniadau aflwyddiannus (4.9%, a 5.4% yn y drefn honno) yn 2007-08. Parhaodd y gyfran a fethodd oherwydd rhesymau allweddol yn sefydlog, ar 15% o'r holl ganlyniadau aflwyddiannus. O blith rhesymau eraill dros ganlyniadau aflwyddiannus roedd rhyddfarnu ar 37% a thystiolaeth anghyson, 9%, yn debyg i droseddau treisio. Yn ogystal, roedd achosion gydag elfennau cyfreithiol hanfodol ar goll yn cynrychioli 12% pellach.

**Tabl 3:** **Rhesymau Allweddol dros Erlyniadau Aflwyddiannus**





| | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Dioddefwr yn Tynnu Cyhuddiad yn ôl | 144 | 5.5% | 105 | 4.9% |
| Dioddefwr Ddim yn Mynychu | 47 | 1.8% | 47 | 2.2% |
| Tystiolaeth Dioddefwr ddim yn cefnogi achos | 119 | 4.5% | 117 | 5.4% |
| Rhybuddiad | 52 | 2.0% | 41 | 1.9% |
| Rhwymo | 33 | 1.3% | 27 | 1.3% |
| *Cyfanswm Prif Resymau* | *395* | *15.0%* | *337* | *15.6%* |
| Pob Rheswm Arall | 2,179 | 82.9% | 1,768 | 82.1% |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 56 | 2.1% | 49 | 2.3% |
| Cyfanswm | 2,630 | | 2,154 | |


Mae tabl a siart 4 yn dangos nifer a chyfran y materion sy'n ymwneud â dioddefwyr mewn perthynas â phob canlyniad. Bu cwymp bach yn niferoedd a chyfran y rhai a fu'n aflwyddiannus oherwydd anawsterau dioddefwyr o 310 (3.7%) yn 2006-07 i 269 (3.3%) yn 2007-08. Cwympodd cyfanswm y canlyniadau aflwyddiannus o ychydig dan 32% yn 2006-07 i ychydig dros 26% yn 2007-08.

**Tabl 4: Cymharu Materion Allweddol sy'n Ymwneud â Dioddefwyr**

**Materion sy'n Ymwneud â Dioddefwyr mewn perthynas â phob canlyniad**




**% Materion sy'n Ymwneud â Dioddefwyr**




| | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Volume | % | Volume | % |
| *Cyfanswm aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr* | *310* | *3.7%* | *269* | *3.3%* |
| Cyfanswm Aflwyddiannus | 2,630 | 31.7% | 2,154 | 26.5% |
| Cyfanswm Euogfarnau | 5,675 | 68.3% | 5,976 | 73.5% |
| Cyfanswm Erlyniadau | 8,305 | | 8,130 | |

## Tynnu cyhuddiadau yn ôl


Er y sefydlwyd cyfleuster i gasglu gwybodaeth am fater tynnu'n ôl ers mis Ebrill 2007, y mae cyflawnrwydd a dibynadwyedd y data yn parhau i gael eu datblygu. Y mae gwaith ar y gweill ar gyfer 2009-2010 i wella casglu data ac ansawdd y data.

## Cydraddoldeb

### *(i) Diffynyddion*

**Rhyw**
Mae tabl 5 yn dadansoddi rhyw diffynyddion. Prin fu'r newid yng nghyfran y diffynyddion sy'n ddynion, ar bron i 96% yn 2006- 07 ac yn 2007 -08.

**Tabl 5: Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Rhyw y Diffynnydd**




| | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 348 | 4.2% | 368 | 4.5% |
| Dynion | 7,957 | 95.8% | 7,761 | 95.5% |
| Ni wyddys | 0 | 0.0% | 1 | 0.0% |
| Cyfanswm | 8,305 | | 8,130 | |

## Ethnigrwydd

Bydd y CPS yn casglu data ethnigrwydd am ddiffynyddion yn unol â diffiniadau cytûn y System Cyfiawnder Troseddol ar gyfer yr 16+1 categori ethnig. Yn 2007-08, nodwyd bod 69% o ddiffynyddion troseddau rhywiol ac eithrio treisio yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig, a chafodd 74% eu categoreiddio yn ddiffynyddion Gwyn. Nodwyd bod 7% o ddiffynyddion yn Asiaidd, a nodwyd bod 6% pellach yn Ddu. Nid oedd ychydig dros 5% o ddiffynyddion wedi datgan eu hethnigrwydd wrth gael eu harestio.

## Data cydraddoldeb arall

Bu darpariaeth ar gael ers Ebrill 2007 i gasglu data am grefydd neu gred ac anabledd diffynyddion. Fodd bynnag, mae cyflawnrwydd a chywirdeb y data yn parhau i gael eu datblygu.

### *(ii) Dioddefwyr*

Fe ddaw data am ddioddefwyr o'r System Reoli Tystion. Ar hyn o bryd, nid yw'n bosib cael y data hwn ar gyfer troseddau rhywiol ac eithrio treisio gan nad yw categorïau'r prif drosedd ar gael yn y WMS i allu casglu'r data.

# 9 Priodas dan orfod, yr hyn a elwir yn droseddau 'anrhydedd' a llungunio organau rhywiol merched

Mae'r CPS yn cynnwys yr hyn a elwir yn droseddau 'anrhydedd', priodas dan orfod a llungunio organau rhywiol merched o fewn polisi a chanllaw trais yn y cartref. Hyd yma, ni ddygwyd unrhyw achosion gerbron ar gyfer erlyn llungunio organau rhywiol merched. Buom yn cynnal cynllun peilot ar briodas dan orfod a'r hyn a elwir yn droseddau 'anrhydedd' rhwng Gorffennaf 2007 a Mawrth 2008 er mwyn nodi a monitro'r achosion hyn am y tro cyntaf. Erlynwyr arbenigol, a gafodd eu dewis yn benodol, gyda chanllawiau ac hyfforddiant, a fu'n arwain wrth erlyn yr achosion hyn. Roedd y prosiect yn ceisio nodi nifer a phatrwm yr achosion o briodas dan orfod a'r hyn a elwir yn droseddau 'anrhydedd'; nodi unrhyw faterion sy'n wynebu erlynwyr wrth adnabod, rheoli ac erlyn achosion o'r fath yn gywir; a chyfrannu at ddatblygu unrhyw ganllawiau ac hyfforddiant cenedlaethol i erlynwyr.

Cyhoeddwyd adroddiad ymchwil ar y peilot yn ystod hydref 2008, a bydd yn cyfrannu at gynlluniau yn y dyfodol ar gyfer gwaith y CPS ar yr hyn a elwir yn droseddau 'anrhydedd' a phriodas dan orfod (gan gynnwys polisi, canllawiau, hyfforddiant ac amlygu achosion). Mae'r CPS hefyd yn mynd ati ar hyn o bryd i godi ymwybyddiaeth ledled y wlad, fel aelod gweithredol o bwyllgor llywio ar draws y Llywodraeth ar briodas dan orfod a'r hyn a elwir yn droseddau 'anrhydedd'. Rydym hefyd yn ymwneud â gweithgorau Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu a Heddlu Llundain ar yr un pynciau.

Rhoddir ystyriaeth i gynnwys canlyniadau priodas dan orfod a'r hyn a elwir yn droseddau 'anrhydedd' yn y Dangosydd VAW yn 2009-10.

**Astudiaeth Achos: Trosedd 'anrhydedd'**

Cyhuddwyd y diffynnydd o gyflawni dau gownt o lithio llofruddiaeth mewn perthynas â'i gyn-wraig (Ms A) a'i phartner newydd (Mr B).

Yn ystod eu priodas roedd Ms A wedi wynebu trais gan y diffynnydd ac aelodau o'i deulu. Ar ôl nifer o flynyddoedd fe ddihangodd Ms A i loches. Yn ddiweddarach fe ddechreuodd ar berthynas newydd gyda Mr B, a chafodd y cwpl fab gyda'i gilydd. Daeth y diffynnydd i wybod ble'r oedd Ms A a Mr B yn byw ac fe barhaodd ef a'i deulu i achosi problemau iddi.

Roedd cyfnither y diffynnydd mewn perthynas â dyn o'r enw Mr C. Aeth y diffynnydd at Mr C a gofyn a wyddai am unrhyw un a allai ladd ei wraig oherwydd ei bod wedi codi cywilydd ar ei deulu. Diystyrrodd Mr C y cynnig i ddechrau ond yna cysylltodd â phapur newydd, a drefnodd gyfarfod gyda'r diffynnydd lle'r oedd newyddiadurwr o'r papur yn cymryd arno ei fod yn lladdwr.

Cafodd y cyfarfod ei recordio ar fideo. Bu'r diffynnydd yn trafod y posibilrwydd o gael rhywun i ladd Ms A a Mr B er y byddai hynny wedi golygu y byddai eu baban yn amddifad. Dywedwyd wrtho y byddai'r ffi tua £5000, a bu hyd yn oed yn haglo gyda'r papur newydd i gael gostwng y pris i £3000.

Er bod hwn yn erlyniad cymhleth, cafodd y diffynnydd ei ddyfarnu'n euog a'i ddedfrydu i bum mlynedd a hanner dan glo am bob llofruddiaeth a lithiwyd, y ddau i gydredeg.

# ⑩ Casgliadau allweddol y cynllun peilot priodas dan orfod/yr hyn a elwir yn droseddau 'anrhydedd'

Cynhaliwyd gwaith ymchwil i gefnogi'r peilot ble clustnodwyd 35 achos yn ymwneud â throseddau a gyflawnwyd yng nghyd-destun priodas dan orfod a/neu'r hyn a elwir yn drosedd 'anrhydedd' yn ystod cyfnod naw mis y peilot; roedd 21 o'r rhain wedi'u cwblhau adeg casglu'r data. Er gwaethaf y niferoedd bach, datgelodd yr ymchwil nifer o batrymau:

- roedd erlyniadau yn fwy tebygol o gael eu cwblhau yn Llys y Goron yn hytrach nag yn y llysoedd ynadon;
- roedd yr holl ddiffynyddion yn y peilot yn wrywod, 29 mlwydd oed ar gyfartaledd, ac yn fwyaf tebygol o gael eu dosbarthu'n Asiaidd (Pacistanidd, Bangladeshaidd neu Indiaidd);
- roedd nifer o droseddau yn cynnwys mwy nag un dioddefwr a mwy nag un diffynnydd, gan ddatgelu patrwm o ddiffynyddion a/neu ddioddefwyr lluosog;
- ble'r oedd un dioddefwr ac un diffynnydd, y berthynas oedd priod/cyn-briod yn bennaf;
- yn aml roedd y berthynas rhwng y dioddefwr/dioddefwyr a'r diffynnydd/diffynyddion yn gymhleth ac nid oedd yn anarferol i'r berthynas ddisgyn y tu allan i sefyllfa trais yn y cartref; ac
- roedd dioddefwyr yn wrywod a benywod, ond roedd y dioddefwyr gwrywaidd mewn troseddau yn ymwneud â pherthynas gyda menyw, a oedd wedi dioddef niwed ei hun o fewn sefyllfa lle'r oedd rheolaeth deuluol gan wryw.

O blith y 21 achos a gwblhawyd, arweiniodd 10 at euogfarn. Roedd achosion a fethodd arwain at euogfarn yn ymwneud gan amlaf â phryderon dioddefwr a/neu dyst ble cofnodwyd rheswm dros y canlyniad. Mae cyfyngiadau enghreifftiol yn golygu y dylai'r ffigurau hyn gael eu trin fel rhai mynegol yn unig a chynghorir y dylid bod yn ofalus rhag dod i gasgliadau heb roi ystyriaeth briodol i'r cyfyngiadau hyn[9].

Roedd yr ymchwil hefyd yn amlygu'r manteision i erlynwyr o dderbyn yr agweddau hyfforddiant a chanllawiau oedd yn rhan o'r peilot. Nodwyd awgrymiadau ar gyfer hyfforddiant yn y dyfodol, fel hyfforddiant pellach ar amrywiaeth ddiwylliannol. Adroddwyd hefyd am welliannau i'r canllawiau yn ogystal â syniadau ar gyfer mentrau yn y dyfodol.

Mae cynigion ar gyfer gwaith o fewn y CPS yn y dyfodol ar briodas dan orfod a'r hyn a elwir yn droseddau 'anrhydedd', ar sail casgliadau'r ymchwil, yn canolbwyntio ar dri phrif faes:

- erlyn achosion;
- cefnogaeth i ddioddefwyr a thystion; ac
- clustnodi achosion yn y dyfodol.

Bwriedir gweithredu argymhellion yn y meysydd hyn o fis Ebrill 2009 ymlaen.

[9] Ceir rhagor o wybodaeth am y cyfyngiadau yn y bennod *'Approach and Limitations'* yn *'Findings from the CPS Pilot on Forced Marriage and So-Called 'Honour Crime' Report'*. Mae'r adroddiad ar gael ar lein yn: www.cps.gov.uk/publications/

# ⓫ Plant a cham-drin plant

Cyhoeddwyd Polisi'r CPS ar Blant a Phobl Ifanc yn 2006. Cyhoeddwyd Diogelu Plant – Canllaw ar Blant fel Dioddefwyr a Thystion yn 2008. Mae'r ddau yn adlewyrchu ymrwymiad y CPS i weithio gydag asiantaethau eraill i ddiogelu plant.

Bu sefydliadau plant a'r bobl ifanc eu hunain yn rhan o adolygu fersiynau drafft o'r polisi. Paratowyd fersiynau o'r polisi ar gyfer plant rhwng 5-9 mlwydd oed a rhwng 10-14 mlwydd oed. Mae lluniau neu ddelweddau i gefnogi'r testun yn y ddau fersiwn, gan sicrhau bod y dogfennau yn addas ar gyfer plant gydag anableddau dysgu.

Sefydlwyd grŵp ymgynghorol allanol parhaol i gynghori'r CPS ar faterion plant.

Bydd hyfforddiant ynghylch Diogelu Plant yn cael ei ymgorffori mewn cyrsiau sy'n bodoli eisoes. Ar hyn o bryd mae cwrs cenedlaethol, penodol y CPS ar erlyn achosion cam-drin plant yn cael ei ddrafftio, felly hefyd Ganllaw Cyfreithiol, ar gyfer hydref 2008.

Cyhoeddwyd Trydydd Adroddiad y Cyd Brif Arolygwyr ar Ddiogelu Plant yng Ngorffennaf 2008. Roedd y darlun cyffredinol yn gadarnhaol ynghylch y CPS. Cydnabuwyd bod polisïau a threfniadau'r CPS ar gyfer diogelu plant yn gryfderau. Cyhoeddwyd Adroddiad *HMCPSI Second Review of the Role and Contribution of the CPS to Safeguarding Children* yn Awst 2008. Roedd yr adolygiad yn cydnabod bod y CPS *'wedi cyflawni cryn waith ers ein hadroddiad diwethaf ac, o gyfuno hynny â datblygiadau disgwyliedig, y mae llawer i fod yn gadarnhaol yn ei gylch.'*

Mae'r CPS yn gweithio'n agos ag ACPO wrth iddynt ddiwygio Llawlyfr eu Huwch Swyddogion Ymchwilio a'u Canllaw ar Ymchwilio i Gam-drin Plant a Diogelu Plant, a bydd y ddau yn cael eu cyhoeddi yn ystod hydref 2008. Rydym wedi derbyn gwahoddiad gan ACPO i ymuno â'r Gweithgor Cenedlaethol ar Ddiogelu Plant i nodi pryderon, risgiau a cherrig milltir.

Mae'r CPS yn gweithio'n agos gydag OCJR yn eu hadolygiad o Dystion Ifanc. Disgwylir y bydd ymateb y Llywodraeth i atebion a gafwyd yn dilyn yr Ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2008.

Mynegwyd pryderon, o nifer o ffynonellau, nad oes cyfle i blant gael therapi cyn treial rhag ofn y bydd hynny'n niweidio achosion troseddol. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn trwy atgoffa Rhanbarthau fod lles y plentyn yn hollbwysig, trwy ailadrodd y neges ym mhob cyhoeddiad perthnasol (gan gynnwys cyhoeddiadau allanol gan, er enghraifft, ACPO ac OCJR). Bydd taflen yn cael ei pharatoi hefyd i roi'r neges yn uniongyrchol i rieni/gofalwyr.

Yn 2008-09 cytunir ar ddiffiniad y CPS o "gam-drin plant" a'i ledaenu i Ranbarthau er mwyn monitro perfformiad erlyn. Rhoddir ystyriaeth hefyd i gynnwys canlyniadau cam-drin plant yn y Dangosydd VAW yn 2009-10.

**Astudiaeth Achos: Cam-drin plant**

Cafodd diffynnydd ei garcharu ar ôl cyfaddef iddo gam-drin tair merch ysgol yn rhywiol.

Bu'n cam-drin y tair merch – rhwng chwech a 15 mlwydd oed – tra oedd yn gweithio fel hyfforddwr gymnasteg a thrampolîn mewn clwb a sefydlwyd ganddo. Bu'n rhoi hyfforddiant un i un i'r merched.

Cafodd ryw yn llawn gydag un ddioddefwraig a bu'n cyflawni gweithredoedd rhyw gyda'r tair dros gyfnod o 10 mlynedd rhwng 1976 a 1986. Daeth yr ymosodiadau i'r amlwg y llynedd wedi i un ddioddefwraig gwyno wrth yr heddlu. Yna daeth dwy ferch arall ymlaen.

Cyfaddefodd i 25 cyhuddiad o ymosod anweddus ac 17 trosedd anwedduster.

Bu'r diffynnydd yn y ddalfa ers Ionawr 2008, ac fe'i dedfrydwyd i naw mlynedd dan glo. Bydd yn cael ei roi ar gofrestr y troseddwyr rhyw am oes.

## Casgliadau Allweddol

Bydd achosion Cam-drin Plant yn cael eu nodi wrth i ddefnyddiwr y CMS osod baner monitro ar yr achos ar y cam cyn cyhuddo. Yn ogystal, bydd canlyniadau erlyn yn cael eu hadrodd yn ôl categori'r prif drosedd; lladdiad, troseddau corfforol a throseddau rhywiol, a ddyrennir ar derfyn yr achos. Tra'n disgwyl i ddiffiniad cytûn cenedlaethol y CPS o gam-drin plant gael ei gwblhau yn ystod 2008-09, dylid arfer gofal wrth ddehongli'r data isod ar gam-drin plant.

### *(i) Lladdiad*[10]

Yn y ddwy flynedd yn diweddu ym mis Mawrth 2008, erlynwyd 59 diffynnydd am droseddau cam-drin plant a bennwyd yn lladdiad yn ôl y categori prif drosedd. Gostyngodd euogfarnau o 83% yn 2006-07 i 69% yn 2007-08.

Roedd cyfran y dynion a erlynwyd yn y categori hwn yn amrywio o 77% yn 2006-07 i 69% yn 2007-08. Menywod oedd y 23% a 31% oedd yn weddill.

### *(ii) Troseddau corfforol*

Yn y ddwy flynedd yn diweddu ym mis Mawrth 2008, erlynwyd 4,654 diffynnydd am droseddau cam-drin plant a bennwyd yn droseddau corfforol yn ôl y categori prif drosedd. Parhaodd euogfarnau yn sefydlog ar 72% yn 2006-07 a 2007-08.

Mae cyfran y dynion a erlynwyd yn y categori hwn wedi parhau fwy neu lai yr un fath yn y ddwy flynedd yn diweddu Mawrth 2008, ar 76% yn 2006-07 a 75% yn 2007-08.

### *(iii) Troseddau Rhywiol*

Yn y ddwy flynedd yn diweddu Mawrth 2008, erlynwyd 7,783 diffynnydd am droseddau cam-drin plant a bennwyd yn droseddau rhywiol yn ôl y categori prif drosedd. Cododd euogfarnau o 69% yn 2006-07 i 72% yn 2007-08.

Mae cyfran y dynion a erlynwyd yn y categori hwn wedi parhau fwy neu lai yr un fath ar 98% yn 2006-07 a 2007-08.

[10] Mae Categori Prif Drosedd 'Lladdiad' yn cynnwys troseddau llofruddiaeth neu ddynladdiad, cynllwynio neu geisio achosi llofruddiaeth neu ddynladdiad, a bygwth lladd.

# ⓬ Y fasnach mewn pobl

Cyhoeddodd y CPS ganllaw cyfreithiol ar y fasnach mewn pobl yn 2007 a ddiweddarwyd yn Ionawr 2008 i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol a pholisi.

Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu diwygiedig y Deyrnas Unedig ledled y llywodraeth yng Ngorffennaf 2008. Y mae'r CPS yn gyfrifol am nifer o weithredoedd a fydd yn rhoi rhagor o gefnogaeth i ddioddefwyr.

Bu mentrau dioddefwyr a gafodd eu treialu yn ystod Pentametr 2, a'r peilot llafur gorfodol, yn cyfrannu at newidiadau angenrheidiol er mwyn cadarnhau confensiwn Cyngor Ewrop ar fasnachu pobl a gynlluniwyd ar gyfer diwedd 2008. Y mae datblygiadau ar y llwybr cywir i gyrraedd y garreg filltir hon a bydd yn gwella'r trefniadau presennol trwy:

- gyflwyno cyfnod ystyried o ddeugain niwrnod y gellir ei ymestyn dan rai amgylchiadau;
- cyflwyno caniatâd preswylio dros dro newydd (i'w adnewyddu ar ôl 1 flwyddyn) ar gyfer dioddefwyr y fasnach mewn pobl sy'n cymryd rhan yn y broses gyfiawnder troseddol;
- ymestyn trefniadau cefnogi presennol ar gyfer dioddefwyr y fasnach mewn pobl (gan gynnwys masnachu ar gyfer llafur gorfodol); a
- chyflwyno Dull Cyfeirio Cenedlaethol ffurfiol er mwyn helpu i nodi a chyfeirio dioddefwyr at gefnogaeth briodol.

Mae'r CPS wedi cyfrannu at asesiad effaith ar gyfer darpar erlyniadau ychwanegol a allai godi o ganlyniad i'r trefniadau hyn. Bydd canllawiau polisi yn cael eu diweddaru i adlewyrchu newidiadau.

Dechreuwyd ar gynllun peilot i ymdrin â'r fasnach mewn pobl ar gyfer llafur gorfodol ym mis Mai 2008 am 5 mis yn rhanbarth East Anglia. Dyma ymateb amlasiantaeth dan arweiniad Awdurdod Trwyddedu Meistri Gangiau, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu ac Asiantaethau Ffiniau'r DU. Cafodd Prif Erlynwyr y Goron y CPS eu briffio ar y strategaeth erlyn a sut i ddelio â'r cyfryngau ar gyfer cyswllt lleol. Bydd rhagor o ddulliau i gefnogi dioddefwyr yn cael eu treialu ar gyfer dioddefwyr llafur.

Cynhaliwyd hyfforddiant ar gyfer penaethiaid yr Uned Achosion Cymhleth (CCU) ym mis Hydref ar y fasnach mewn pobl. Bydd CCU yn ysgwyddo rhywfaint o waith datganoledig o Adran Troseddu Cyfundrefnol y CPS a bydd mewn gwell sefyllfa i ddelio â throsedd ar draws ffiniau (heddluoedd a rhanbarthau'r CPS) sy'n nodweddu achosion masnachu mewn pobl.

Mae'r CPS yn cyfrannu at ymchwil a thrafodaethau i wella ein hymateb i'r fasnach fewnol mewn pobl a'r fasnach mewn plant, ac mae'n gweithio gyda'r Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol (OCJR) a Sefydliadau Anllywodraethol (NGO) i nodi ffyrdd o wella mynediad dioddefwyr at iawndal.

Mae'r CPS yn gweithio gyda Chanolfan Masnach mewn Pobl y Deyrnas Unedig yn 2008-09 i fonitro canlyniadau erlyn. Rhoddir ystyriaeth i gynnwys canlyniadau'r fasnach mewn pobl yn y Dangosydd VAW yn 2010-11.

**Astudiaeth Achos: Y Fasnach mewn Pobl**

Y ddioddefwraig oedd merch 15 mlwydd oed o Ddwyrain Ewrop a ddygwyd i'r Deyrnas Unedig. Roedd hi dan yr argraff y byddai ganddi swydd am yr haf yn gwerthu hufen iâ yn Llundain. Ar ôl cyrraedd y maes awyr, daeth dau "gyfaill" o'i gwlad i gwrdd â hi. Fodd bynnag, roedd ei swydd yn wahanol i'r disgwyl – fe'i gwerthwyd am £4,000 i ddyn a'i treisiodd; aethpwyd â hi i Birmingham i weithio mewn puteindy. Fe'i symudwyd rhwng pedair dinas fawr yn Lloegr a bu'n rhaid iddi gysgu gyda chynifer â deg dyn bob dydd. Fe'i gwerthwyd hi eto am £3,000 a'i symud i buteindy mewn dinas arall cyn cael ei throsglwyddo drachefn i Lundain. Cafodd ei gwerthu saith gwaith i gyd. Cafodd ei threisio gan y rhai a'i prynodd a phan fyddai'n gwrthod byddent yn ymosod arni. Llwyddodd i ddianc ac roedd cyflwr difrifol arni pan gyrhaeddodd orsaf yr heddlu.

Cafodd y ddau "gyfaill" eu cyhuddo o fasnachu mewn pobl i mewn ac allan o'r Deyrnas Unedig, cafodd y dyn olaf i'w phrynu ei gyhuddo o dreisio, a chyhuddwyd dyn arall o'i charcharu ar gam.

Cafodd tri o'r diffynyddion eu dyfarnu'n euog gan y rheithgor. Dedfrydwyd un "cyfaill" i 18 mlynedd dan glo ac apeliodd yn erbyn hyd y ddedfryd. Gwrthodwyd yr apêl. Cyfaddefodd y "cyfaill" a'i prynodd iddo gael cyfathrach rywiol â hi. Honnai iddi gydsynio ac mai'r ddioddefwraig a ysgogodd hynny, a chredai ei bod hi dros 16 mlwydd oed. Wrth gyfeirio'r rheithgor, gofynnodd barnwr y treial iddynt ystyried yn gyntaf a oedd y diffynnydd yn euog o fasnachu mewn pobl. Os ydoedd, a ellid disgwyl o ddifrif ei bod hi wedi cydsynio? Dedfrydwyd ef i gyfanswm o 15 mlynedd. Dyfarnwyd y trydydd diffynnydd yn euog o garcharu ar gam a chafodd ei ddefrydu i bum mlynedd.

*Mae'r achos hwn yn dangos llawer o linynnau Trais yn erbyn Menywod*

Plentyn 15 mlwydd oed oedd y ddioddefwraig; cafodd ei masnachu; fe'i gwerthwyd i buteindra; ei threisio; ei charcharu ar gam ac ymosodwyd arni'n rhywiol.

Mae achosion fel hyn yn dangos rhyng-gysylltedd y gwaith hwn; y ffyrdd y gallwn erlyn achosion o'r fath yn drylwyr a llwyddiannus, a'r angen i sicrhau bod dioddefwyr yn cael cefnogaeth a'u bod

# ⓭ Puteindra

Yn Chwefror 2006 cyhoeddwyd Canllaw Puteindra y CPS. Yno mae'n cynghori, wrth ystyried budd y cyhoedd, y dylid rhoi mwy o bwyslais ar arestio plagwyr pen ffordd (kerb crawlers) a thargedu y rhai sy'n creu'r galw am buteiniaid stryd ac sy'n defnyddio eu gwasanaethau, er mwyn eu herlyn. Mae'n cynghori hefyd ar ymdriniaeth ychwanegol i annog puteiniaid i ddod o hyd i ffyrdd o adael puteindra. Diweddarwyd canllawiau ar buteindra stryd yn Ionawr 2008.

Mae'r CPS wedi cyfrannu at "Adolygiad o Alw" ledled y llywodraeth trwy fod yn aelod o'r Grŵp Llywio. Mae hyn wedi golygu ymchwilio i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill, mynd gyda Gweinidogion ar ymweliadau â Sweden ac Amsterdam, ble mae'r ddeddfwriaeth ar buteindra ar ben arall y sbectrwm, hwyluso gweithdai gyda'r heddlu, erlynwyr a'r rhai sy'n darparu prosiectau i gynorthwyo puteiniaid i adael, a chyfrannu at archwiliadau ac ymgyrch farchnata.

Ym mis Mai 2008, fel rhan o'r adolygiad o alw, bu'r CPS yn arwain archwiliad cenedlaethol i sefydlu gwahaniaethau rhanbarthol a gosod polisïau a strategaethau lleol yn eu lle er mwyn gorfodi ac erlyn troseddau yn ymwneud â phuteindra. Bu'r archwiliad hefyd yn edrych ar yr amrywiadau rhanbarthol mewn arferion dedfrydu. Cafodd casgliadau'r archwiliad hwn eu dadansoddi a byddant yn cyfrannu at ddewisiadau ar gyfer newid anneddfwriaethol i Weinidogion a chyfrannu at ganllawiau i'r heddlu ac erlynwyr ar arferion gorau.

Yn dilyn cyhoeddiadau gan yr Ysgrifennydd Cartref ym Medi 2008, mae'r CPS yn gweithio gyda swyddogion y Swyddfa Gartref ar nifer o ddarpariaethau y bwriedir eu cynnwys ym Mesur yr Heddlu a Gostwng Troseddu sydd ar ddod.

Mae'r CPS yn gweithio gyda Chanolfan Masnach mewn Pobl y Deyrnas Unedig yn 2008-09 i fonitro rhai canlyniadau erlyn puteindra. Rhoddir ystyriaeth i gynnwys canlyniadau puteindra yn y Dangosydd VAW yn 2010-11.

**Astudiaeth Achos 1: Puteindra**

Carcharwyd cyfreithiwr am 12 mis am fyw oddi ar enillion puteindra.

Roedd wedi prynu tŷ mawr yn y wlad, Porsche, Mercedes a BMW, yn ogystal â gemwaith gwerth miloedd o bunnau gyda'i ran ef o enillion grŵp o ferched partneru (escorts).

Plediodd yn euog i reoli puteindra er elw, a gofynnodd am i dri chownt o fyw oddi ar enillion anfoesol gael eu hystyried pan ymddangosodd gerbron Llys y Goron.

Bu'n rhedeg gwefan o'i gartref, gan restru dros 30 putain. Byddai'n cymryd comisiwn o 30% i drefnu cyfarfodydd a, thros bedair blynedd, enillodd dros £500,000 trwy reoli partneru yn Llundain.

Nid oedd wedi datgelu unrhyw incwm ers dechrau ei fusnes rhyw. Hynny, a'r symiau mawr o arian yn ei gyfrif banc, a arweiniodd at ei arestio. Fel atodiad i'r achos troseddol fe wnaed gorchymyn atafaelu o dros a £600,000 ac fe'i talwyd yn llawn.

**Astudiaeth Achos 2: Puteindra**

Cafodd tri diffynnydd (2 ddyn a menyw) eu dyfarnu'n euog a'u dedfrydu am gynllwynio i fasnachu mewn puteiniaid i mewn i'r Deyrnas Unedig, cynllwynio i reoli puteindra er elw, a chynllwynio i hwyluso torri cyfraith mewnfudo. Fe'u dedfrydwyd i'r carchar am 7 mlynedd, 5 mlynedd a 2 flynedd a 9 mis, er i'r dedfrydau o 7 mlynedd a 5 mlynedd gael eu hamrywio yn ddiweddarach i 5 mlynedd a 4 blynedd dan glo.

Bu'r diffynnydd oedd yn fenyw yn gweithio fel putain yn Sbaen ble cyfarfu â'i chyd-ddiffynnydd. Teithiodd y ddau i Brydain, a chyda nai ei chyd-ddiffynnydd fe sefydlwyd asiantaeth bartneru. Bu'r diffynnydd yn recriwtio menywod o Sbaen a De America trwy osod hysbysebion ar y rhyngrwyd a hysbysebu mewn papurau newyddion Sbaenaidd. Cafodd menywod eraill eu recriwtio gan y nai o Ddwyrain Ewrop a Rwsia. Ar ôl eu recriwtio, cawsant gymorth i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig yn anghyfreithlon, gan gamfanteisio ar wendidau yn y system fewnfudo.

Roedd y fenter yn drefnus dros ben, wrth gyrraedd y Deyrnas Unedig, byddai'r menywod yn dechrau gweithio ar unwaith. Cawsant eu hannog i gynnig dewis ehangach o wasanaethau rhywiol nag oeddynt wedi disgwyl yn wreiddiol. Y tri diffynnydd oedd yn rheoli eu gwaith a byddent yn cadw 60% o'u henillion, ac o'r swm oedd yn weddill roedd y menywod yn gorfod talu costau sylweddol. Sicrhaodd y diffynyddion fod nifer o fflatiau ar gael er mwyn i'r menywod weithio.

Er i nifer o fenywod roi tystiolaeth yn ystod y treial gan ddweud na chawsant eu gorfodi i ddod i'r Deyrnas Unedig nac i weithio fel puteiniaid, unwaith roeddynt yma roedd hi'n amlwg fod y diffynyddion wedi camfanteisio arnynt. Roeddent yn mynd ati'n drefnus i fewnfudo pobl oedd i bob pwrpas yn agored i niwed oherwydd eu bod yn dod o wledydd hynod dlawd. Bu'r diffynyddion yn camfanteisio ar hyn a'u statws mewnfudo anghyfreithlon er elw masnachol. Yn ystod ymgyrch wyliadwriaeth chwe mis gan yr heddlu, amcangyfrifwyd bod y diffynyddion wedi elwa o dros £240,000.

# ⓮ Pornograffi

Erbyn hyn mae mwyafrif y troseddau pornograffi yn gysylltiedig â'r rhyngrwyd/cyfrifiaduron a bydd ein tîm 'uwch dechnoleg' o erlynwyr trosedd yn arwain y dasg o erlyn yr achosion hyn.

Diweddarwyd canllawiau ar ffotograffau anweddus o blant ac anlladrwydd ar gyfer erlynwyr. Cynhaliwyd seminar hyfforddiant ar bornograffi ar gyfer erlynwyr a gweithwyr achosion penodol ym mis Hydref 2008.

Bydd y CPS yn gweithio'n agos gyda Chanolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP) sy'n rhan o orfodi cyfraith y Deyrnas Unedig sy'n ymroi i ddileu cam-drin plant yn rhywiol. Mae'r CPS yn aelod o grŵp strategol ACPO ar gyfer Ymladd yn erbyn Cam-drin Plant ar y Rhyngrwyd (CCAI) ac is-grŵp cyfreithiol Dirprwy Gadeirydd CCAI.

## Casgliadau Allweddol

Mae cofnodion Troseddau CMS yn nodi nifer y troseddau ble dwynwyd achos mewn llysoedd ynadon. Cofnodir troseddau ar wahân oddi wrth achosion erlyn, ac felly ni ellir adrodd ar ganlyniadau diffynyddion ar gyfer troseddau penodol. Yn ystod y broses erlyn, gall trosedd gael ei newid unwaith neu sawl tro; felly nid oes modd datgan a barhaodd y trosedd gwreiddiol a'r cyhuddiad gwreiddiol adeg cwblhau.

Yn ystod 2007-08 cyhuddwyd nifer o droseddau pornograffi a throseddau eraill gan gyrraedd o leiaf un gwrandawiad yn y llysoedd ynadon dan Ddeddf Gwarchod Plant 1978; Deddf Cyhoeddiadau Anllad 1959; Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988; Deddf Gohebiaethau Maleisus 1988 a Deddf Cyfathrebu 2003. Nid oes modd gwahaniaethu rhwng y cyfathrebiadau hynny, yn bornograffig a ddim yn bornograffig, a gyhuddir dan y ddwy Ddeddf olaf.

Yn 2007-08 dechreuwyd erlyn mewn perthynas â 566 trosedd o ddeunydd anweddus neu sy'n peri tramgwydd dybryd, 111 cyhoeddiad anllad, 1,037 trosedd o anfon cyfathrebiad sy'n peri tramgwydd dybryd neu anweddus a 568 trosedd o achosi dicter, anhwylustod neu bryder dianghenraid i berson arall.

Roedd troseddau mewn perthynas â phlant yn cynnwys 3,079 trosedd o feddu ar ffotograff anweddus o blentyn a 11,873 trosedd o gamfanteisio'n rhywiol ar blant trwy ffotograffau; ac o'u plith roedd 10,832 yn droseddau gwneud ffotograff anweddus o blentyn, roedd 678 yn droseddau dosbarthu ffotograff anweddus o blentyn, roedd 345 yn droseddau dangos ffotograffau anweddus a 18 yn droseddau cyhoeddi hysbyseb oedd yn debygol o awgrymu bod yr hysbysebwr yn dosbarthu neu'n dangos ffotograffau anweddus o blant.

**Astudiaeth Achos 1: Pornograffi**

Cafodd y diffynnydd ei arestio am fod â ffotograffau anweddus o blant yn ei feddiant a'u dosbarthu. Cipiwyd casgliad o dros 240,000 ffotograff anweddus o blant, gyda delweddau llonydd ac ar ffilm. Roedd y delweddau yn bennaf o ferched ifanc dan 10 mlwydd oed, gan gynnwys delweddau o blant yn gaeth a gweithredoedd rhywiol treiddiol. Roedd un ddelwedd o oedolyn yn cymryd rhan mewn gweithred rywiol gyda baban.

Cyfaddefodd y diffynnydd iddo gasglu a storio'r delweddau hyn. Yr oedd hefyd yn safonwr gwefan a'i rôl oedd plismona'r safle am ddelweddau anweddus, gan ganiatáu iddo gasglu a storio delweddau ar ei gyfrifiadur ei hun. Defnyddiodd y wefan i gysylltu ag eraill a chael a chyfnewid ffotograffau anweddus o blant.

Yr oedd hefyd wedi tynnu ffotograffau anweddus o blentyn pum mlwydd oed y bu mewn safle o ymddiriedaeth â hi ers oedd hi'n dair blwydd oed.

Cafodd ei ddyfarnu'n euog gyda dedfryd Benagored er Diogelwch y Cyhoedd (IPP, sy'n golygu dedfryd ddewisol o garchar am oes) a'i wahardd rhag gweithio gyda phlant am oes.

**Astudiaeth Achos 2: Pornograffi**

Mewn achos y credir ei fod y cyntaf o'i fath, dyfarnwyd diffynnydd yn euog o greu delweddau anweddus o blant gan ddefnyddio ei gyfrifiadur. Derbyniodd orchymyn goruchwylio am 18 mis ar yr amod ei fod yn mynychu rhaglen driniaeth i droseddwyr rhyw, a bydd yn cael ei roi ar gofrestr y troseddwyr rhyw am bum mlynedd.

Roedd achosion blaenorol wedi ymwneud â phobl yn torri, gludio ac uno ffotograffau i greu delweddau anweddus. Yn sgil datblygiadau ym maes meddalwedd cyfrifiadurol, mae unigolion yn gallu creu delweddau anweddus nad ydynt yn ffotograffau, ond sydd mor realistig fel eu bod yn edrych fel ffotograffau. Y rhai mwyaf soffistigedig oedd delweddau wedi'u gwella gan gyfrifiadur neu ddelweddau wedi'i creu yn llwyr gan gyfrifiadur. Roedd y delweddau yn ymddangos yn ffotograffau anweddus dilys neu realistig o blant.

Mae canlyniad yr achos hwn wedi sefydlu bod y delweddau manwl hyn o gam-drin plant yn gyfystyr â siwdo-ffotograffau anweddus o blant, ac mae'n anghyfreithlon gwneud ffotograffau o'r fath.

# ⓯ Troseddau yn erbyn pobl hŷn

Cyhoeddwyd datganiad Polisi cyhoeddus ar droseddau yn erbyn pobl hŷn a Chanllaw ar gyfer erlynwyr ar erlyn yr achosion hyn yng Ngorffennaf 2008. Roedd grwpiau cyfeirio allanol oedd ynghlwm â drafftio'r Polisi yn cynnwys grwpiau ffocws, gydag aelodau hŷn o'r cyhoedd yn rhan ohonynt.

Roedd datblygu polisi ar gyfer erlyn achosion o gam-drin pobl hŷn yn ofyniad allweddol yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Oedran, a geir o fewn Cynllun Cydraddoldeb Sengl (SES) y CPS, 2006-2010 a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2006.  Oherwydd nad oedd gan y CPS bolisi trosedd casineb yn ei le i ddelio â throseddau yn erbyn pobl hŷn, ac nad oedd cyfleuster i alluogi troseddau yn erbyn pobl hŷn i gael eu nodi ar System Reoli Achosion (CMS) COMPASS, cafodd cynlluniau i sefydlu'r gwaith hwn eu cynnwys o fewn gweithredoedd y SES.

Mae'r gwaith hwn yn gosod y CPS ar flaen y gad o safbwynt materion yn ymwneud â phobl hŷn ac mae'n hoelio sylw erlynwyr ar y mater cydraddoldeb pwysig hwn.

Sefydlwyd baner i fonitro troseddau yn erbyn pobl hŷn ym mis Ebrill 2008. Rhoddir ystyriaeth i gynnwys canlyniadau erlyn troseddau yn erbyn pobl hŷn yn y Dangosydd VAW yn 2009-10.

## Atodiad 1: Erlyniadau fesul Rhanbarth

### Cyfanswm erlyniadau trais yn erbyn menywod y CPS

| | 2007-08 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **42 Rhanbarth** | **51,974** | **68.9%** | **23,478** | **31.1%** | **75,452** |
| Avon a Gwlad yr Haf | 1,407 | 71.5% | 561 | 28.5% | **1,968** |
| Swydd Bedford | 447 | 67.9% | 211 | 32.1% | **658** |
| Swydd Gaergrawnt | 548 | 68.1% | 257 | 31.9% | **805** |
| Sir Gaer | 1,212 | 71.7% | 478 | 28.3% | **1,690** |
| Cleveland | 877 | 68.9% | 396 | 31.1% | **1,273** |
| Cymbria | 499 | 76.7% | 152 | 23.3% | **651** |
| Swydd Derby | 1,248 | 70.5% | 523 | 29.5% | **1,771** |
| Dyfnaint a Chernyw | 991 | 68.6% | 453 | 31.4% | **1,444** |
| Dorset | 734 | 68.3% | 340 | 31.7% | **1,074** |
| Durham | 769 | 70.3% | 325 | 29.7% | **1,094** |
| Dyfed Powys | 406 | 80.9% | 96 | 19.1% | **502** |
| Essex | 1,020 | 69.4% | 450 | 30.6% | **1,470** |
| Swydd Gaerloyw | 670 | 77.5% | 195 | 22.5% | **865** |
| Manceinion Fwyaf | 3,487 | 71.6% | 1,382 | 28.4% | **4,869** |
| Gwent | 676 | 69.6% | 295 | 30.4% | **971** |
| Hampshire | 1,953 | 67.5% | 942 | 32.5% | **2,895** |
| Swydd Hertford | 695 | 65.5% | 366 | 34.5% | **1,061** |
| Glannau Humber | 1,120 | 79.9% | 281 | 20.1% | **1,401** |
| Caint | 1,383 | 68.3% | 643 | 31.7% | **2,026** |
| Swydd Gaerhirfryn | 2,874 | 75.3% | 942 | 24.7% | **3,816** |
| Swydd Gaerlyˆr | 1,131 | 70.8% | 466 | 29.2% | **1,597** |
| Swydd Lincoln | 511 | 74.1% | 179 | 25.9% | **690** |
| Glannau Mersi | 1,435 | 63.7% | 817 | 36.3% | **2,252** |
| Llundain a Dinas Llundain | 5,268 | 59.0% | 3,661 | 41.0% | **8,929** |
| Norfolk | 850 | 80.0% | 213 | 20.0% | **1,063** |
| Swydd Northampton | 408 | 77.0% | 122 | 23.0% | **530** |
| Northymbria | 1,752 | 66.3% | 891 | 33.7% | **2,643** |
| Gogledd Cymru | 806 | 77.8% | 230 | 22.2% | **1,036** |
| Gogledd Swydd Efrog | 519 | 69.8% | 225 | 30.2% | **744** |
| Swydd Nottingham | 954 | 61.9% | 588 | 38.1% | **1,542** |
| De Cymru | 1,329 | 66.0% | 684 | 34.0% | **2,013** |
| De Swydd Efrog | 1,607 | 71.6% | 638 | 28.4% | **2,245** |
| Swydd Stafford | 1,169 | 67.1% | 573 | 32.9% | **1,742** |
| Suffolk | 694 | 80.4% | 169 | 19.6% | **863** |
| Surrey | 460 | 63.4% | 266 | 36.6% | **726** |
| Sussex | 1,152 | 67.5% | 554 | 32.5% | **1,706** |
| Dyffryn Tafwys | 1,553 | 68.1% | 728 | 31.9% | **2,281** |
| Swydd Warwig | 413 | 83.3% | 83 | 16.7% | **496** |
| Gorllewin Mersia | 832 | 70.5% | 348 | 29.5% | **1,180** |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 3,281 | 67.2% | 1,600 | 32.8% | **4,881** |
| Gorllewin Swydd Efrog | 2,261 | 70.9% | 927 | 29.1% | **3,188** |
| Wiltshire | 573 | 71.5% | 228 | 28.5% | **801** |

## Cyfanswm erlyniadau trais yn y cartref y CPS

| | 2007-08 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **42 Rhanbarth** | **43,977** | **68.9%** | **19,842** | **31.1%** | **63,819** |
| Avon a Gwlad yr Haf | 1,235 | 72.4% | 471 | 27.6% | **1,706** |
| Swydd Bedford | 379 | 67.1% | 186 | 32.9% | **565** |
| Swydd Gaergrawnt | 476 | 68.6% | 218 | 31.4% | **694** |
| Sir Gaer | 1,059 | 71.7% | 418 | 28.3% | **1,477** |
| Cleveland | 750 | 68.2% | 350 | 31.8% | **1,100** |
| Cymbria | 427 | 77.6% | 123 | 22.4% | **550** |
| Swydd Derby | 1,103 | 70.8% | 454 | 29.2% | **1,557** |
| Dyfnaint a Chernyw | 824 | 67.0% | 406 | 33.0% | **1,230** |
| Dorset | 656 | 69.1% | 294 | 30.9% | **950** |
| Durham | 660 | 70.4% | 277 | 29.6% | **937** |
| Dyfed Powys | 351 | 81.3% | 81 | 18.8% | **432** |
| Essex | 861 | 69.4% | 379 | 30.6% | **1,240** |
| Swydd Gaerloyw | 606 | 78.5% | 166 | 21.5% | **772** |
| Manceinion Fwyaf | 2,975 | 72.1% | 1,152 | 27.9% | **4,127** |
| Gwent | 573 | 69.9% | 247 | 30.1% | **820** |
| Hampshire | 1,691 | 68.3% | 785 | 31.7% | **2,476** |
| Swydd Hertford | 557 | 65.8% | 290 | 34.2% | **847** |
| Glannau Humber | 944 | 81.0% | 221 | 19.0% | **1,165** |
| Caint | 1,123 | 67.9% | 531 | 32.1% | **1,654** |
| Swydd Gaerhirfryn | 2,550 | 75.6% | 822 | 24.4% | **3,372** |
| Swydd Gaerlyˆr | 1,005 | 71.0% | 410 | 29.0% | **1,415** |
| Swydd Lincoln | 437 | 73.6% | 157 | 26.4% | **594** |
| Glannau Mersi | 1,246 | 63.0% | 732 | 37.0% | **1,978** |
| Llundain a Dinas Llundain | 3,898 | 58.3% | 2,790 | 41.7% | **6,688** |
| Norfolk | 715 | 79.4% | 185 | 20.6% | **900** |
| Swydd Northampton | 304 | 74.7% | 103 | 25.3% | **407** |
| Northymbria | 1,533 | 65.6% | 805 | 34.4% | **2,338** |
| Gogledd Cymru | 716 | 77.4% | 209 | 22.6% | **925** |
| Gogledd Swydd Efrog | 429 | 71.7% | 169 | 28.3% | **598** |
| Swydd Nottingham | 789 | 60.3% | 520 | 39.7% | **1,309** |
| De Cymru | 1,153 | 66.1% | 591 | 33.9% | **1,744** |
| De Swydd Efrog | 1,427 | 71.5% | 570 | 28.5% | **1,997** |
| Swydd Stafford | 1,014 | 66.5% | 511 | 33.5% | **1,525** |
| Suffolk | 602 | 82.6% | 127 | 17.4% | **729** |
| Surrey | 376 | 63.9% | 212 | 36.1% | **588** |
| Sussex | 972 | 67.5% | 468 | 32.5% | **1,440** |
| Dyffryn Tafwys | 1,318 | 68.3% | 611 | 31.7% | **1,929** |
| Swydd Warwig | 355 | 84.7% | 64 | 15.3% | **419** |
| Gorllewin Mersia | 668 | 69.4% | 295 | 30.6% | **963** |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 2,738 | 66.2% | 1,398 | 33.8% | **4,136** |
| Gorllewin Swydd Efrog | 1,974 | 70.1% | 842 | 29.9% | **2,816** |
| Wiltshire | 508 | 71.5% | 202 | 28.5% | **710** |

## Cyfanswm erlyniadau treisio y CPS

| | 2007-08 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **42 Rhanbarth** | **2,021** | **57.7%** | **1,482** | **42.3%** | **3,503** |
| Avon a Gwlad yr Haf | 53 | 56.4% | 41 | 43.6% | **94** |
| Swydd Bedford | 16 | 61.5% | 10 | 38.5% | **26** |
| Swydd Gaergrawnt | 11 | 50.0% | 11 | 50.0% | **22** |
| Sir Gaer | 20 | 55.6% | 16 | 44.4% | **36** |
| Cleveland | 27 | 69.2% | 12 | 30.8% | **39** |
| Cymbria | 12 | 50.0% | 12 | 50.0% | **24** |
| Swydd Derby | 38 | 66.7% | 19 | 33.3% | **57** |
| Dyfnaint a Chernyw | 41 | 69.5% | 18 | 30.5% | **59** |
| Dorset | 16 | 55.2% | 13 | 44.8% | **29** |
| Durham | 41 | 70.7% | 17 | 29.3% | **58** |
| Dyfed Powys | 12 | 63.2% | 7 | 36.8% | **19** |
| Essex | 26 | 57.8% | 19 | 42.2% | **45** |
| Swydd Gaerloyw | 22 | 61.1% | 14 | 38.9% | **36** |
| Manceinion Fwyaf | 167 | 62.1% | 102 | 37.9% | **269** |
| Gwent | 33 | 64.7% | 18 | 35.3% | **51** |
| Hampshire | 64 | 54.7% | 53 | 45.3% | **117** |
| Swydd Hertford | 32 | 51.6% | 30 | 48.4% | **62** |
| Glannau Humber | 50 | 62.5% | 30 | 37.5% | **80** |
| Caint | 49 | 51.6% | 46 | 48.4% | **95** |
| Swydd Gaerhirfryn | 85 | 63.4% | 49 | 36.6% | **134** |
| Swydd Gaerlyˆr | 28 | 70.0% | 12 | 30.0% | **40** |
| Swydd Lincoln | 11 | 64.7% | 6 | 35.3% | **17** |
| Glannau Mersi | 36 | 59.0% | 25 | 41.0% | **61** |
| Llundain a Dinas Llundain | 387 | 45.5% | 464 | 54.5% | **851** |
| Norfolk | 22 | 71.0% | 9 | 29.0% | **31** |
| Swydd Northampton | 22 | 73.3% | 8 | 26.7% | **30** |
| Northymbria | 50 | 62.5% | 30 | 37.5% | **80** |
| Gogledd Cymru | 14 | 70.0% | 6 | 30.0% | **20** |
| Gogledd Swydd Efrog | 20 | 47.6% | 22 | 52.4% | **42** |
| Swydd Nottingham | 50 | 62.5% | 30 | 37.5% | **80** |
| De Cymru | 54 | 61.4% | 34 | 38.6% | **88** |
| De Swydd Efrog | 42 | 61.8% | 26 | 38.2% | **68** |
| Swydd Stafford | 38 | 55.9% | 30 | 44.1% | **68** |
| Suffolk | 18 | 58.1% | 13 | 41.9% | **31** |
| Surrey | 16 | 57.1% | 12 | 42.9% | **28** |
| Sussex | 47 | 66.2% | 24 | 33.8% | **71** |
| Dyffryn Tafwys | 55 | 55.0% | 45 | 45.0% | **100** |
| Swydd Warwig | 16 | 69.6% | 7 | 30.4% | **23** |
| Gorllewin Mersia | 33 | 68.8% | 15 | 31.3% | **48** |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 131 | 61.5% | 82 | 38.5% | **213** |
| Gorllewin Swydd Efrog | 100 | 75.8% | 32 | 24.2% | **132** |
| Wiltshire | 16 | 55.2% | 13 | 44.8% | **29** |

## Cyfanswm erlyniadau troseddau rhywiol ac eithrio treisio y CPS

| | 2007-08 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **42 Rhanbarth** | **5,976** | **73.5%** | **2,154** | **26.5%** | **8,130** |
| Avon a Gwlad yr Haf | 119 | 70.8% | 49 | 29.2% | **168** |
| Swydd Bedford | 52 | 77.6% | 15 | 22.4% | **67** |
| Swydd Gaergrawnt | 61 | 68.5% | 28 | 31.5% | **89** |
| Sir Gaer | 133 | 75.1% | 44 | 24.9% | **177** |
| Cleveland | 100 | 74.6% | 34 | 25.4% | **134** |
| Cymbria | 60 | 77.9% | 17 | 22.1% | **77** |
| Swydd Derby | 107 | 68.2% | 50 | 31.8% | **157** |
| Dyfnaint a Chernyw | 126 | 81.3% | 29 | 18.7% | **155** |
| Dorset | 62 | 65.3% | 33 | 34.7% | **95** |
| Durham | 68 | 68.7% | 31 | 31.3% | **99** |
| Dyfed Powys | 43 | 84.3% | 8 | 15.7% | **51** |
| Essex | 133 | 71.9% | 52 | 28.1% | **185** |
| Swydd Gaerloyw | 42 | 73.7% | 15 | 26.3% | **57** |
| Manceinion Fwyaf | 345 | 72.9% | 128 | 27.1% | **473** |
| Gwent | 70 | 70.0% | 30 | 30.0% | **100** |
| Hampshire | 198 | 65.6% | 104 | 34.4% | **302** |
| Swydd Hertford | 106 | 69.7% | 46 | 30.3% | **152** |
| Glannau Humber | 126 | 80.8% | 30 | 19.2% | **156** |
| Caint | 211 | 76.2% | 66 | 23.8% | **277** |
| Swydd Gaerhirfryn | 239 | 77.1% | 71 | 22.9% | **310** |
| Swydd Gaerlyˆr | 98 | 69.0% | 44 | 31.0% | **142** |
| Swydd Lincoln | 63 | 79.7% | 16 | 20.3% | **79** |
| Glannau Mersi | 153 | 71.8% | 60 | 28.2% | **213** |
| Llundain a Dinas Llundain | 983 | 70.7% | 407 | 29.3% | **1,390** |
| Norfolk | 113 | 85.6% | 19 | 14.4% | **132** |
| Swydd Northampton | 82 | 88.2% | 11 | 11.8% | **93** |
| Northymbria | 169 | 75.1% | 56 | 24.9% | **225** |
| Gogledd Cymru | 76 | 83.5% | 15 | 16.5% | **91** |
| Gogledd Swydd Efrog | 70 | 67.3% | 34 | 32.7% | **104** |
| Swydd Nottingham | 115 | 75.2% | 38 | 24.8% | **153** |
| De Cymru | 122 | 67.4% | 59 | 32.6% | **181** |
| De Swydd Efrog | 138 | 76.7% | 42 | 23.3% | **180** |
| Swydd Stafford | 117 | 78.5% | 32 | 21.5% | **149** |
| Suffolk | 74 | 71.8% | 29 | 28.2% | **103** |
| Surrey | 68 | 61.8% | 42 | 38.2% | **110** |
| Sussex | 133 | 68.2% | 62 | 31.8% | **195** |
| Dyffryn Tafwys | 180 | 71.4% | 72 | 28.6% | **252** |
| Swydd Warwig | 42 | 77.8% | 12 | 22.2% | **54** |
| Gorllewin Mersia | 131 | 77.5% | 38 | 22.5% | **169** |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 412 | 77.4% | 120 | 22.6% | **532** |
| Gorllewin Swydd Efrog | 187 | 77.9% | 53 | 22.1% | **240** |
| Wiltshire | 49 | 79.0% | 13 | 21.0% | **62** |

# Geirfa

## Trais yn erbyn menywod

| | |
|---|---|
| Trais yn y Cartref: | unrhyw ddigwyddiad neu ymddygiad bygythiol, trais neu gam-drin (seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol) rhwng rhai[11] sydd neu a fu yn bartneriaid agos neu'n aelodau teuluol, ni waeth o ba ryw neu rywioldeb. Mae aelodau teuluol yn cynnwys mam, tad, mab, merch, chwaer, a thaid a nain, boed yn perthyn trwy waed, trwy briodas, neu'n llysdeulu. |
| Treisio: | unrhyw ddiffynnydd sy'n cael ei gyhuddo o gyflawni un neu ragor o'r troseddau canlynol –<br>• S1 Deddf Troseddau Rhywiol 1956<br>• S5 Deddf Troseddau Rhywiol 1956<br>  – Ymgais i gyflawni un o'r troseddau uchod dan Ddeddf Ymgeisiau i Droseddu 1981<br>• S1 Deddf Troseddau Rhywiol 2003<br>• S5 Deddf Troseddau Rhywiol 2003<br>• S30(3) Deddf Troseddau Rhywiol 2003<br>  – Ymgais i gyflawni un o'r troseddau uchod dan Ddeddf Ymgeisiau i Droseddu 1981<br>Ysgogi neu gynllwynio i gyflawni unrhyw un o'r troseddau uchod |
| Troseddau Rhywiol ac: eithrio treisio: | unrhyw ddiffynnydd y mae categori ei brif drosedd, adeg cwblhau, yn drosedd rhywiol ac eithrio treisio. |
| **Baneri monitro:** | bydd mathau senstif o achosion yn cael eu nodi trwy gyfrwng nifer o faneri monitro, a roddir ar achosion perthnasol ar y cam cyn cyhuddo. Trwy gyfrwng y baneri, gall rheolwyr fonitro trafodion yn ystod oes yr erlyniad, a gellir adrodd am y canlyniad ar ôl diwedd yr achos. |

## Canlyniadau achosion

| | |
|---|---|
| **Penderfyniadau Cyn Cyhuddo:** | Ym mhob achos heblaw'r rhai lleiaf, a lle rhagwelir ple euog, Erlynwyr y Goron sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid cyhuddo rhywun o drosedd ai peidio, ac os dylid, pa drosedd a ddewisir, yn unol â Chanllawiau'r Cyfarwyddwr. |
| Wedi'i gyhuddo: | achosion lle penderfynodd y CPS y dylid cyhuddo. |
| Cais am dystiolaeth bellach: | ble gwneir cais am ragor o wybodaeth neu weithredu, neu lle'r ystyrir hynny'n angenrheidiol. |
| Dim erlyniad: | achosion lle bydd y CPS yn penderfynu na ddylid erlyn, am resymau tystiolaethol neu am resymau budd y cyhoedd. |
| Pob penderfyniad arall: | ble rhoddir rhybuddiad, cerydd neu rybudd terfynol; ble cafodd y trosedd ei ystyried mewn perthynas â chyhuddiadau eraill; neu lle methodd y diffynnydd ateb i fechnïaeth a bod gwarant wedi'i chyflwyno. |

[11] Yn y CPS bydd achosion yn cael eu monitro ar gyfer oedolion a'r rhai Dan 18.

| | |
|---|---|
| **Erlyniadau:** | yr holl ddiffynyddion a gyhuddwyd neu a dderbyniodd wŷs ac y cwblhawyd yr achos yn llys yr ynadon neu Lys y Goron yn ystod y cyfnod, gan gynnwys y rhai a aeth ymlaen i dreial neu bledio'n euog, y rhai a derfynwyd a'r rhai na ellid bwrw ymlaen â nhw. |
| <u>Canlyniadau Aflwyddiannus:</u> | yr holl erlyniadau a gwblhawyd ble na chafodd y diffynnydd ei euogfarnu, sy'n cynnwys y canlynol: |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol: | ble na all erlyniad fwrw ymlaen oherwydd bod diffynnydd wedi methu ymddangos mewn llys ac y cyflwynwyd Gwarant gan y Fainc i'w arestio ef neu hi; neu fod y diffynnydd wedi marw, neu wedi'i gael yn anffit i bledio: neu ble bydd achosion yn cael eu gohirio yn amhenodol. Os bydd Gwarant gan y Fainc yn cael ei chyflawni mae'n bosib yr ailagorir yr achos. |
| Achosion traddodi a ryddhawyd: | achosion traddodi ble bydd y diffynnydd yn cael ei ryddhau. Yn dilyn rhyddhau, gellir ailgychwyn achos. |
| Terfynu a thynnu'n ôl: | O ystyried y dystiolaeth a budd y cyhoedd, gall y CPS benderfynu terfynu achosion ar unrhyw adeg cyn dechrau'r treial. Yma fe gynhwysir achosion a derfynir yn ffurfiol cyn y gwrandawiad, y rhai ble na chynigiwyd unrhyw dystiolaeth, a'r rhai a dynnir yn ôl yn y llys. Yma hefyd cynhwysir achosion lle cafodd y diffynnydd ei rwymo i gadw'r heddwch. |
| Gwrthod ar ôl treial llawn: | achosion ble bydd y diffynnydd yn pledio'n ddi-euog ac y bydd yr ynadon yn gwrthod yr achos ar ôl gwrando achos yr amddiffyniad. |
| Dim achos i'w ateb: | achosion ble bydd y diffynnydd yn pledio'n ddi-euog ac y gwrandewir tystiolaeth yr erlyniad, ond y gwrthodir yr achos gan yr ynadon heb wrando achos yr amddiffyniad. |
| Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu: | achosion ble bydd y canlynol yn digwydd: ar ddiwedd achos yr erlyniad yn erbyn y diffynnydd, gwneir argymhelliad llwyddiannus o 'ddim achos' neu 'anniogel' ar ran y diffynnydd, ac y bydd y barnwr yn cyfarwyddo rhyddfarn yn hytrach na chaniatáu i'r achos gael ei benderfynu gan y rheithgor. |
| Rhyddfarnu gan reithgor: | pan fydd y diffynnydd yn pledio'n ddi-euog ac, yn dilyn treial, yn cael ei ryddfarnu gan y rheithgor. |
| <u>Euogfarnau:</u> | achos lle ceir y diffynnydd yn euog yn dilyn erlyniad, sy'n cynnwys: |
| Ple euog: | lle bydd y diffynnydd yn pledio'n euog. |
| Euogfarn yn dilyn treial: | achosion ble bydd y diffynnydd yn pledio'n ddi-euog, ond yn cael ei ddyfarnu'n euog ar ôl gwrando'r dystiolaeth. |
| Prawf yn absenoldeb: | Troseddau llai yw'r rhain a glywir gan y llys yn absenoldeb y diffynnydd. |

**Categorïau Rhesymau dros Ganlyniadau Aflwyddiannus**

| | |
|---|---|
| Tystiolaethol: | ble bo'r erlynydd yn penderfynu nad oes digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn. |
| Budd y cyhoedd: | ble'r ystyrir bod digon o dystiolaeth, ond bod yr erlynydd yn penderfynu bod ffactorau budd y cyhoedd yn erbyn erlyn. |
| Methu parhau: | lle bo'r dystiolaeth a budd y cyhoedd yn cefnogi erlyniad, ond fod amgylchiadau yn ei gwneud hi'n amhosib i'r achos fynd yn ei flaen. |
| Rhesymau eraill: | ble bydd y diffynnydd yn cael ei rwymo, rhyddfarnu neu wrthod ar ôl treial, neu ble nad oes unrhyw ddewis arall yn briodol. |
| Cwblhau gwaith gweinyddol: | Bydd y CPS yn cofnodi cwblhau gwaith gweinyddol pan na all erlyniad fynd yn ei flaen oherwydd bod diffynnydd wedi methu ymddangos yn y llys a Gwarant gan y Fainc wedi'i chyflwyno i'w arestio ef neu hi; neu fod y diffynnydd wedi marw; neu wedi'i gael yn anffit i bledio: neu lle bo trafodion yn cael eu gohirio yn amhenodol. Os bydd Gwarant gan y Fainc yn cael ei chyflawni mae'n bosib yr ailagorir yr achos. |

**Rhesymau dros Ganlyniadau Aflwyddiannus**

| | |
|---|---|
| Dioddefwr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl: | ble bo tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi achos yr erlyniad, y dioddefwr yn gwrthod cael ei alw i dystio, neu'n tynnu'n ôl, neu'n tynnu'r gŵyn yn ôl. |
| Dioddefwr ddim yn mynychu: | gelwir y dioddefwr yn dyst mewn treial, ond bydd yn methu mynychu'r llys. |
| Tystiolaeth y dioddefwr ddim yn cefnogi'r achos: | nid yw tystiolaeth y dioddefwr am y trosedd yn cefnogi erlyn y diffynnydd, gan arwain at ganlyniad aflwyddiannus, ond, serch hynny, nad yw'r dioddefwr wedi tynnu'n ôl. |
| Rhybuddiad: | y diffynnydd yn cael ei gyhuddo o gyflawni trosedd, ond y penderfynir wedyn y byddai rhybuddiad yn fwy priodol nag erlyn. |
| Rhwymo: | y diffynnydd yn cael ei gyhuddo o gyflawni trosedd, ond yn cytuno i gael ei rwymo. |
| Elfen gyfreithiol hanfodol: | ni all yr erlyniad barhau oherwydd bod elfen gyfreithiol hanfodol ar goll o achos yr erlyniad. |
| Tyst neu dystion yn annibynadwy: | pan fo tystiolaeth tyst neu dystion yr erlyniad, heblaw'r diffynnydd, yn cael ei hystyried yn annibynadwy, gan arwain at ganlyniad aflwyddiannus. |
| Tystiolaeth anghyson: | Bydd anghysondeb mewn tystiolaeth erlyn yn arwain at ganlyniad aflwyddiannus. |

| | |
|---|---|
| **Categori'r prif drosedd:** | bydd troseddau a gyhuddir yn cael eu dyrannu i un o ddeuddeg categori trosedd er mwyn dangos y math o drosedd a difrifoldeb y cyhuddiadau a ddwynir yn erbyn y diffynnydd. |

**Gallwch lawrlwytho rhagor o gopïau o'r adroddiad hwn mewn PDF Adobe Acrobat ar wefan y CPS http//www.cps.gov.uk**

Argraffwyd gan Blackburns of Bolton
Ffôn 01204 532121